

# Defnyddio tystiolaeth ymchwil

Canllaw ymarfer

# Using research evidence

A practice guide

**nesta**



Y Gynghair  
ar gyfer Tystiolaeth  
Ddefnyddiol



Alliance  
for Useful  
Evidence

## Cydnabyddiaeth

Ysgrifennwyd y canllaw hwn gan **Jonathan Breckon**, fe'i golygwyd gan **Isobel Roberts** a'i gynhyrchu gan Dîm Sgiliau Arloesi Nesta.

Diolch i'r canlynol am eu sylwadau, eu hawgrymiadau a'u cymorth gyda'r canllaw hwn: **Helen Anderson** (Proffesiwn Polisi, Dysgu'r Gwasanaeth Sifil); **Jonathan Bamber** (Nesta); **Albert Bravo-Biosca** (Nesta); Yr Athro **Paul Cairney** (University of Stirling); **Michael O'Donnell** (BOND); **Triin Edovald** (Nesta); **Caroline Kenny** (Swyddfa'r Senedd ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg); **Geoff Mulgan** (Nesta); **Tony Munton** (Centre for Evidence Based Management ac RTK Ltd); **Nicky Miller** (College of Policing); **Helen Mthiyane** (Y Gynghrair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol); **Jonathan Sharples** (Sefydliad Gwaddol Addysgol); **Louise Shaxson** (Sefydliad Datblygu Tramor); **Howard White** (Campbell Collaboration).

Hoffem hefyd ddiolch i'r holl gyfranogwyr a phartneriaid yn ein Gweithdai Tystiolaeth yn ystod 2014-15, gan gynnwys Dysgu'r Gwasanaeth Sifil, ACEVO (Cymdeithas Prif Weithredwyr Sefydliadau Gwirfoddol), Cyngor yr Alban ar gyfer Sefydliadau Gwirfoddol, SOLACE a Phroffesiwn Polisi Llywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, nid yw'r safbwyntiau o reidrwydd yn adlewyrchu'r awgrymiadau a wnaed gan yr unigolion hyn na'u sefydliadau cysylltiedig. Mae unrhyw wallau yn yr adroddiad yn parhau i fod yn wallau yr awdur ei hun.

---

## Ynglŷn â'r Gynghrair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol

Mae'r Gynghrair yn hyrwyddo'r defnydd o dystiolaeth mewn polisi ac ymarfer cymdeithasol. Rydym yn rhwydwaith agored o ragor na 3,000 o unigolion o lywodraeth, prifysgolion, elusennau, busnesau ac awdurdodau lleol yn y DU ac yn rhyngwladol.

I gofrestru ewch i: [www.alliance4usefulevidence.org/join](http://www.alliance4usefulevidence.org/join)

Cysylltwch â Chyfarwyddwr y Gynghrair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol ar [jonathan.breckon@nesta.org.uk](mailto:jonathan.breckon@nesta.org.uk)

## Canllawiau Ymarfer Nesta

Mae'r canllaw hwn yn rhan o gyfres o Ganllawiau Ymarfer a ddatblygwyd gan dîm Sgiliau Arloesi Nesta. Cynlluniwyd y canllawiau i'ch helpu i ddysgu am ddulliau arloesi a dulliau gweithredu a'u rhoi ar waith yn eich gwaith eich hun.

I gael gwybodaeth bellach cysylltwch â: [skills@nesta.org.uk](mailto:skills@nesta.org.uk)

## Ynglŷn â Nesta

Mae Nesta yn elusen arloesi fyd-eang. Ein cenhadaeth yw tanio a thyfu syniadau newydd i wella sut mae'r byd yn gweithio i bawb. Defnyddiwn ein gwybodaeth, rhwydweithiau, cyllid a sgiliau i fynd i'r afael â heriau mawr, gan weithio mewn partneriaeth ag eraill i sicrhau bod newid yn digwydd.

Rydym yn elusen yn y DU ac mae ein gwaith yn cael ei alluogi gan waddol ariannol. Mae Nesta yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 1144091 ac yn yr Alban SCO42833.





## Acknowledgements

This guide was written by **Jonathan Breckon**, edited by **Isobel Roberts** and produced by Nesta's Innovation Skills team.

Thank you to the following for their comments, suggestions and help with this guide: **Helen Anderson** (Policy Profession, Civil Service Learning); **Jonathan Bamber** (Nesta); **Albert Bravo-Biosca** (Nesta); **Professor Paul Cairney** (University of Stirling); **Michael O'Donnell** (BOND); **Triin Edovald** (Nesta); **Caroline Kenny** (Parliamentary Office for Science and Technology); **Geoff Mulgan** (Nesta); **Tony Munton** (Centre for Evidence Based Management and RTK Ltd); **Nicky Miller** (College of Policing); **Helen Mthiyane** (Alliance for Useful Evidence); **Jonathan Sharples** (Education Endowment Foundation); **Louise Shaxson** (Overseas Development Institute); **Howard White** (Campbell Collaboration).

We would also like to thank all the participants and partners in our Evidence Masterclasses during 2014-15, including Civil Service Learning, ACEVO (Association of Chief Executives of Voluntary Organisations), Scottish Council for Voluntary Organisations, SOLACE and the Welsh Government Policy Profession.

The views do not, however, necessarily reflect the suggestions made by these individuals or their affiliated organisations. Any errors in the report remain the author's own.

---

## About the Alliance for Useful Evidence

The Alliance champions the use of evidence in social policy and practice. We are a free, open-access network of over 3,000 individuals from across government, universities, charities, business and local authorities in the UK and internationally.

To sign up visit: [www.alliance4usefulevidence.org/join](http://www.alliance4usefulevidence.org/join)

Contact: Director of Alliance for Useful Evidence, Jonathan Breckon on [jonathan.breckon@nesta.org.uk](mailto:jonathan.breckon@nesta.org.uk)

## Nesta's practice guides

This guide is part of a series of practice guides developed by Nesta's Innovation Skills team. The guides have been designed to help you learn about innovation methods and approaches and put them into practice in your own work.

For further information contact: [skills@nesta.org.uk](mailto:skills@nesta.org.uk)

## About Nesta

Nesta is a global innovation foundation. Our mission is to spark and grow new ideas to improve how the world works for everyone. We use our knowledge, networks, funding and skills to take on big challenges, working in partnership with others to make change happen.

We are a UK charity and our work is enabled by a financial endowment. Nesta is a registered charity in England and Wales 1144091 and Scotland SC042833.



# Defnyddio tystiolaeth ymchwil

## Canllaw ymarfer

Cyflwyniad 6

Adran A: Beth yw gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth, a pham canolbwyntio ar ymchwil? 8

Adran B: Pryd gall tystiolaeth eich helpu? 15

Adran C: 'Llunio'r gwadn fel bo'r droed' – Pa dystiolaeth ddylech chi ei dewis? 20

RHAN 1: Gwahanol fathau o ddulliau ymchwil, dyluniadau ac ymagweddau 22

RHAN 2: Sut mae barnu ansawdd ymchwil? 31

Adran D: Ble dylech chi edrych am dystiolaeth? 41

Adran E: Sut dylech chi gyfleu eich canfyddiadau? 50

Crynodeb 53

Atodiad 1: Sail resymegol i dystiolaeth a mathau o dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer llunwyr polisi 55

Atodiad 2: Dyluniadau arbrofol ar gyfer gwerthuso ymyriadau cymhleth 56

Atodiad 3: Canllawiau ar ansawdd tystiolaeth, dyluniadau a dulliau 57

Ôl-nodiadau 58

# Using research evidence

## A practice guide

**Introduction** 63

**Section A: What is evidence-informed decision-making, and why focus on research?** 65

**Section B: When can evidence help you?** 72

**Section C: 'Horses for courses' – What evidence should you choose?** 77

PART 1: Different types of research methods, designs and approaches 79

PART 2: How do you judge the quality of research? 88

**Section D: Where should you look for evidence?** 97

**Section E: How should you communicate your findings?** 105

**Summary** 108

**Appendix 1: Rationales for evidence and types of evidence required for policymakers** 109

**Appendix 2: Experimental designs for evaluating complex interventions** 110

**Appendix 3: Guidance on evidence quality, designs and methods** 111

**Endnotes** 112

---

# Cyflwyniad

*"Nid oes unrhyw beth yn waeth gan y llywodraeth na bod yn hyddysg; mae'n gwneud y broses o wneud penderfyniadau yn llawer mwy cymhleth ac anodd."*

John Maynard Keynes

Gall tystiolaeth ymchwil eich helpu i ddeall beth sy'n gweithio, ym mhle, pam ac i bwy. Gall hefyd ddweud wrthyhych chi beth sydd ddim yn gweithio, a gallwch osgoi ailadrodd methiannau eraill drwy ddysgu o werthusiadau rhaglenni aflwyddiannus.

Mae tystiolaeth hefyd yn herio'r hyn rydyn ni'n ei feddwl sy'n synnwyr cyffredin. Er enghraifft, efallai eich bod yn meddwl ei fod yn syniad da cynyddu nifer yr heddlu sydd ar y strydoedd er mwyn lleihau troseddau neu lleihau maint dosbarthiadau - ond nid yw'r dystiolaeth o reidrwydd yn cefnogi hyn. Efallai y bydd mwy o heddlu yn eu lifrai yn cerdded y strydoedd yn gwneud i bobl deimlo'n fwy diogel, ond mewn gwirionedd gall dynnu'r heddlu i ffwrdd o ddatrys troseddau.<sup>1</sup> Er gwaethaf hyn, roedd y rhan fwyaf o daflenni gwleidyddol a maniffestos yn Etholiad Cyffredinol y DU yn 2015 yn honni y byddai cynyddu nifer yr heddlu sydd ar y stryd yn lleihau troseddau. Fe wnaeth y gwleidyddion anwybyddu'r dystiolaeth.<sup>2</sup>

Pan fydd cyllidebau'n dynn, ni allwn fforddio gwastraffu arian ar bolisiâu a rhaglenni sydd ddim yn gweithio. Efallai bod cael gliniaduron a gismos technegol ym mhob ysgol yn ymrwymiad fyddai'n hawlio'r penawdau, ond ychydig iawn mae'n ei wneud mewn gwirionedd er budd addysg pobl ifanc. Mewn gwirionedd bu i ymchwil gan yr OECD ganfod bod defnyddio cyfrifiaduron yn rheolaidd mewn ysgolion yn aml yn gysylltiedig â chanlyniadau academaidd is.<sup>3</sup>

Wrth gwrs bydd taflu arian at y rhan fwyaf o broblemau fel arfer yn gwneud rhyw fath o ddaioni. Ond a allai'r arian hwnnw fod wedi cael ei wario yn fwy effeithiol ar rywbeth rhatach? Mae'n ymddangos yn amlwg y byddai lleihau maint ystafelloedd dosbarth yn gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu drwy roi hwb i'r sylw un i un mae dysgwyr yn ei gael. Ond yn gyffredinol ychydig o fudd mae'r dystiolaeth yn ei ddangos. Er mwyn cael effaith, byddai angen lleihau dosbarthiadau nodweddiadol i 15 o ddisgyblion - cam costus ar gyfer y rhai hynny sy'n rheoli cyllidebau ysgolion. Yn hytrach, mae dewisiadau eraill sy'n rhatach ac yn cael mwy o effaith, fel rhoi adborth i athrawon neu diwtora cymheiriaid.<sup>4</sup>

P'un a yw mewn gorsaf heddlu, ystafell ddosbarth ysgol neu ystafell bwrdd elusen, gall tystiolaeth eich helpu i wneud penderfyniadau gwell. Mae'n ddefnyddiol nid yn unig i ddarparu gwasanaethau rheng flaen, ond hefyd i greu sefydliadau mwy clyfar - elusennau, awdurdodau lleol, adrannau'r Llywodraeth - ac wrth ddatblygu polisiâu cenedlaethol neu ymgyrchoedd elusennol.

Rydym wedi creu'r canllaw hwn i'ch rhoi ar y trywydd iawn i ddod o hyd i ba dystiolaeth allai eich helpu. Dylai helpu i adeiladu eich hyder wrth 'lunio, cymhathu, crynhoi, dehongli â chyflwyno sylfaen tystiolaeth gref'<sup>5</sup> gan ddefnyddio ymchwil bresennol, yn ogystal â meddwl am sut y gallwch fynd ymlaen i werthuso eich gwaith eich hun.

## Pwy sy'n debygol o ddarllen y canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn wedi'i anelu at y sawl sy'n gwneud penderfyniadau mewn llywodraeth, elusennau, sefydliadau gwirfoddol, cyrff aelodaeth proffesiynol ac awdurdodau lleol sy'n gweithio ym maes polisi ac arfer cymdeithasol yn y DU. Nid yw wedi'i anelu at werthuswyr ac ymchwilwyr wedi'u hyfforddi, ond yn hytrach ei nod yw meithrin galw deallus am dystiolaeth ymchwil gan gynulleidfaeod ehangach.

## Sut i ddefnyddio'r canllaw hwn

Mae'r canllaw wedi'i rannu i'r pum adran ganlynol:

### Adran A: Beth yw gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth, a pham canolbwyntio ar ymchwil?

Mae **Adran A** yn trafod yr hyn rydyn ni'n ei olygu wrth wneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth, a pham fod ymchwil yn elfen hanfodol ohono.

### Adran B: Pryd all tystiolaeth eich helpu?

Mae **Adran B** yn edrych ar wahanol sefyllfaoedd lle gall defnyddio tystiolaeth eich helpu, yn ogystal â'r mathau o dystiolaeth y byddwch chi eu hangen ar wahanol gamau o ddatblygu.

### Adran C: 'Llunio'r gwadn fel bo'r droed' – Pa dystiolaeth dylech chi ei defnyddio?

Mae **Adran C** yn edrych ar fathau gwahanol o dystiolaeth ac yn edrych ar sut i ddewis yr un mwyaf priodol ar gyfer eich achos. Mae hefyd yn trafod sut i farnu ansawdd y dystiolaeth.

### Adran D: Ble dylech chi edrych am dystiolaeth?

Mae **Adran D** yn cynnig cyngor ac adnoddau i'ch helpu chi i ddod o hyd i'r dystiolaeth briodol i gefnogi eich achos.

### Adran E: Sut dylech chi gyfleu eich canfyddiadau?

Mae **Adran E** yn canolbwyntio ar sut i gyfleu eich neges pan fydd gennych chi'r dystiolaeth rydych chi ei hangen.

# Adran A

## Beth yw gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth, a pham canolbwyntio ar ymchwil?

**Mae'r adran hon yn trafod yr hyn rydyn ni'n ei olygu wrth wneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth, a pham fod ymchwil yn elfen hanfodol ohono.**

I ddechrau, gadewch i ni fod yn glir ynghylch yr hyn nad ydyn ni'n ei olygu. Nid ydym yn sôn am ddilyn casgliadau ymchwil anhyblyg yn slafaid. Bydd barn broffesiynol a ffynonellau eraill o wybodaeth - megis adborth gan eich rhanddeiliaid - bob amser yn bwysig. Nid yw'r canllaw hwn yn ymwneud â disodli barn broffesiynol, neu esgus bod atebion hawdd, ond â gwella ansawdd y dystiolaeth a ddefnyddir mewn polisi cymdeithasol.

Dechrau da i ddisgrifio'r hyn rydyn ni'n ei olygu fyddai benthycia diffiniad o fyd meddygaeth. Ddau ddegawd yn ôl, cynigodd David Sackett a'i gydweithwyr y diffiniad canlynol ac mae wedi sefyll prawf amser:

*"Meddygaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth yw'r defnydd cydwybodol, eglur a doeth o dystiolaeth bresennol orau wrth wneud penderfyniadau am ofal cleifion unigol. Mae arfer meddygaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn golygu integreiddio arbenigedd clinigol unigol gyda'r dystiolaeth glinigol allanol orau o ymchwil systematig."*<sup>6</sup>

Nid hon oedd yr ymgais gyntaf i ddiffinio Meddygaeth sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth (EBM), ond mae wedi bod yn ddylanwadol ac mae'r un mor berthnasol i bolisi cymdeithasol ag ydyw i feddygaeth. Mae'n pwysleisio sut y gall ymchwil ategu barn broffesiynol neu ffynonellau eraill o wybodaeth.<sup>7</sup>

Fodd bynnag, dylai unrhyw fodel da o wneud penderfyniadau ofalu rhag rhoi barn broffesiynol ar bedestal gan y gallai arbenigwyr gael pethau'n gwbl anghywir weithiau. Yn ddiweddarach yn yr adran hon byddwch yn darllen am sut y gallwn fod yn 'afresymol yn ôl y disgwyl' ac - yn fwriadol neu'n anfwriadol - sut y gallwn wneud camgymeriadau mewn barn bwysig. Mewn arfer meddygol, gwelodd un dystiolaeth bod 'ffactorau gwybyddol' yn cyfrannu at 74 y cant o ddiagnosisau clinigol anghywir - gan arwain at anafiadau a marwolaeth.<sup>8</sup> Byddwn yn ystyried sut i liniaru'r camgymeriadau hyn mewn penodau diweddarach.

Mae modelau gwneud penderfyniadau eraill hefyd wedi pwysleisio pwysigrwydd cyfuno gwybodaeth am dystiolaeth gyda barn. Mae Gwasanaeth Sifil y DU<sup>9</sup> yn argymhell y dylai llunwyr polisi'r DU feddu ar sgiliau 'gwleidyddiaeth' a 'darparu' i ategu eu gallu i gasglu a defnyddio tystiolaeth. Mae hyn hefyd yn berthnasol i eraill y tu allan i lunio polisiâu, megis



staff mewn elusennau neu awdurdodau lleol. Efallai fod y wleidyddiaeth ychydig yn wahanol - yn cynnwys gwleidyddiaeth 'g' fach eich sector neu sefydliad yn hytrach na manifestos a phleidiau gwleidyddol - ond mae'n parhau i fod yn rhywbeth i'w feistrol. Mae darparu yn bwysig i unrhyw sefydliad, ond mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar hybu tystiolaeth.


## Beth yw 'tystiolaeth', a pham rydyn ni'n canolbwyntio ar ymchwil?

Diffiniad Geiriadur Saesneg Rhydychen o 'dystiolaeth' yw: *"The available body of facts or information indicating whether a belief or proposition is true or valid."*<sup>10</sup>

Rydyn ni'n defnyddio fersiwn y geiriadur hwn oherwydd mae nifer o ddiffiniadau eraill yn dueddol o fod braidd yn ddi-fudd drwy fod yn rhy gynhwysol - gan gynnwys yr holl wybodaeth bron - neu drwy fod yn rhy haniaethol ac amwys.

Fodd bynnag, rydyn ni'n gwyrto oddi wrth y diffiniadau hyn braidd drwy ganolbwyntio ar un math o dystiolaeth. Mae Ffigur A1 yn dangos y gwahanol elfennau a ddylai fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, ond rydyn ni'n canolbwyntio ar gylch uchaf y diagram Venn: ymchwil a gwerthuso.

Ffigur A1: **Pedair elfen rheoli sy'n seiliedig ar dystiolaeth**



Mae'r rheswm dros y ffocws hwn wedi'i gyfleu'n dda gan ganllaw cynharach ar ddefnyddio tystiolaeth a gynhyrchwyd yn ystod y broses o greu UK Centre For Evidence Based Policy yr ESRC ar ddechrau'r 2000au:


*"Wrth gyfeirio at 'dystiolaeth ymchwil', mae hyn yn cynnwys tystiolaeth o erthyglau a phapurau ymchwil a gyhoeddwyd, neu ffynonellau heb eu cyhoeddi megis gwerthusiadau a gynhaliwyd yn fewnol. Un math o dystiolaeth yw ymchwil, ond mae ganddo fanteision megis mwy o **drylwyredd**, **perthnasedd** ac **annibyniaeth** o'i gymharu â rhai mathau eraill o dystiolaeth."*<sup>11</sup>

Felly pam fod gan dystiolaeth ymchwil y manteision hyn? Fel mae awduron adroddiad *What Counts as Good Evidence?* gan y Gynghrair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol yn ei nodi:

*"Mae cynnal a chyhoeddi ymchwil yn cynnwys dogfennu dulliau yn benodol, adolygu cymheiriaid a chraffu allanol, gan arwain at drylwyredd a bod yn agored. Mae'r nodweddion hyn yn cyfrannu at ei natur systematig ac yn helpu drwy gynnig modd o farnu didwylledd canfyddiadau. Maen nhw hefyd yn cynnig y potensial i asesu dilysrwydd un honiad o'i gymharu ag un arall."*<sup>12</sup>

Gallai mathau eraill o dystiolaeth – megis gwerthusiadau mewnlol – fod yn ddefnyddiol ac weithiau mae ganddynt y nodweddion hyn. Ond gall 'gwerthusiadau mewnlol' fod yn anodd i bobl eraill ddod o hyd iddynt; maen nhw'n aml yn gudd ar wefannau sefydliadau ac efallai nad ydynt wedi cael eu hadolygu gan gymheiriaid. Hefyd, mae gormod o werthusiadau mewnlol o ansawdd gwael (gweler tudalen 31), ac maen nhw'n fwy tebygol o fod yn destun i'r nifer o ragfarnau sy'n gallu effeithio ar ymchwil a gwerthuso (gweler tudalen 11).

Ffigur A2: Nodweddion cyffredin gwerthuso yn erbyn ymchwil<sup>13</sup>



Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar ymchwil, ond mae llawer o orgyffwrdd gyda maes gwerthuso a byddwn yn trafod rhai dulliau gwerthuso effaith yn Adran C. Rydym hefyd yn rhoi'r rhan fwyaf o sylw i ymchwil sy'n ymwneud ag effaith - p'un a yw'n rhywbeth sydd wedi cael canlyniadau cadarnhaol neu negyddol - gan fod cwestiynau ar effaith yn hanfodol i'n cynulleidfa. Maen nhw'n meddwl am ddangos eu 'heffaith' mewn elusennau, 'canlyniadau' mewn datblygu rhyngwladol neu 'beth sy'n gweithio' ar gyfer llywodraeth. Gallai'r iaith newid, ond mae'r delfryd yn aros yr un fath: i weld p'un a ydych chi wedi gwneud gwahaniaeth mewn gwirionedd.

Rydym hefyd yn amlygu ymchwil a gwerthuso parod, heb fod unrhyw angen i gynnal astudiaeth newydd sbon. Mae llawer o bobl sy'n gwneud penderfyniadau yn brin o amser ac adnoddau ac ni allant fforddio comisiynu gwaith ymchwil newydd. Yn aml mae'r angen am dystiolaeth yn awr, nid mewn blwyddyn, felly mae'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau angen deunydd y gallant ei 'dynnu oddi ar y silff'. Yn ffodus, mae hyn yn bosibl ac rydym yn ymdrin â hyn yn Adran D.

## Arbenigwyr yn erbyn mwncïod sy'n taflu dartiau: y broblem gyda barn broffesiynol

Rheswm arall dros freintio ymchwil yw oherwydd bod barn broffesiynol yn gallu methu â chael pethau'n iawn. Bu i astudiaeth yr awdur gwleidyddol a'r seicolegydd o America, yr Athro Philip E. Tetlock,<sup>14</sup> ganfod fod yr hyn yr oedd y rhan fwyaf o arbenigwyr yn ei ddarogan yn anghywir. Fe wnaeth gasglu 80,000 o ragfynegiadau arbenigol a'u cymharu gyda'r hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd. Roedd y canlyniadau'n ddinistriol. Bu i academyddion, swyddogion llywodraeth, newyddiadurwyr a doethinebwyr eraill berfformio'n waeth na 'mwncïod yn taflu dartiau' wrth ddarogan y dyfodol. Yn wir, ymddangosai fod yr arbenigwyr hynny gyda gwybodaeth pwnc mwy manwl yn perfformio hyd yn oed yn waeth na'r cyfartaledd.

## Rhagfarn wybyddol

Ond nid yw arbenigwyr yn wael am ragweld y dyfodol yn unig. Gallan nhw wneud camgymeriadau yn awr hefyd. Un ffaith allweddol ym maes seicoleg yw pa mor aml mae pobl yn gwneud camgymeriad o ran barn – nid pobl leyg yn unig, ond llawfeddygon, barnwyr neu wyddonwyr ffrensig sydd wedi'u hyfforddi i lefel uchel yn gweithio mewn sefyllfaoedd byw neu farw. Rydym yn cario baich trwm o ragfarnau, rhagdybiaethau a thueddrwydd hyd yn oed.<sup>15</sup> Fel bodau dynol rydym yn afresymol yn ôl y disgwyl<sup>16</sup> a gallwn brofi hyd at 150 o ragfarnau gwybyddol sy'n amharu ar ein ffordd o feddwl. Mae rhagfarn gwybyddol yn cyfeirio at ein hanallu i fod yn gwbl wrthrychol, a gallai amlygu ei hun drwy nifer o lwybrau posibl – megis afluniad canfyddiadol, barn anghywir a dehongliadau afresymegol a/neu afresymol. Mae'n golygu y dylem fod yn wylidwrus iawn ynghylch cywirdeb penderfyniadau arbenigol.<sup>17</sup>

Hyd yn oed gyda'r bwriadau gorau, gall gweithwyr proffesiynol gael pethau'n anghywir iawn. Er enghraifft, ystyriwch un math o wall gwybyddol, tuedd i gytuno. Dyma'r duedd i weld y dystiolaeth sy'n cyd-fynd â'r hyn a gredwn, ac anwybyddu neu ddiystyru'r hyn nad yw'n cyd-fynd â'r hyn a gredwn. Gall hyd yn oed arbenigwyr profiadol syrthio i'r fagl wybyddol hon (gweler yr astudiaeth achos ar dudalen 12).

Canfu astudiaeth o weithwyr cymdeithasol yn asesu'r risg o gam-drin plant 'wrth y drws ffrynt' nad oedd eu cywirdeb yn llawer gwell na dyfalu. Tuedd i gytuno oedd un o'r ffactorau oedd ar fai am yr anhawster hwn wrth wneud penderfyniadau ar gam-drin plant yn ôl y Behavioural Insights Team a gynhaliodd yr astudiaeth ar gyfer Adran Addysg y DU.<sup>18</sup>



## Gwyddonwyr fforensig yn syrthio i fagl 'tuedd i gytuno'

Bu i'r achos o fomio trêrn yn 2004 yn ystod oriau brig Madrid ladd 191 o bobl a niweidio 1,800. Roedd awdurdodau Sbaen yn amau al-Qaeda. Yn y ras i ganfod y bomwyr, a dan gysgod 9/11, penderfynodd tri arbenigwr olion bysedd yr FBI yn hyderus fod ôl bys o fagl oedd yn cynnwys dyfeisiau bomio yn perthyn i Brandon Mayfield, cyfreithiwr o Oregon, UDA.

Treuliodd Mayfield 17 diwrnod yn nalfa'r FBI. Roedd hyn er gwaethaf pledio cyson gan awdurdodau Sbaen na allai hynny fod yn iawn. Hyd yn oed ar ôl darganfod nad oedd olion Mayfield yn cyfateb yn union i'r rhai ar y bag o fomiau, roedd arbenigwyr olion bysedd yr FBI yn parhau i resymoli'r gwahaniaethau. Dewiswyd llawer o ddarnau o dystiolaeth i gefnogi eu barn. Roedd rhai nad oeddent wir yn fforensig, megis y ffaith bod Mayfield wedi troi at grefydd Islam ar ôl priodi ei wraig o'r Aifft.

Yn dilyn y digwyddiad annifyr hwn, fe wnaeth Adran Cyfiawnder yr Unol Daleithiau orchymyn cynnal adolygiad llawn o'r achos ac yn y pen draw dywedwyd fod tuedd i gytuno wedi cyfrannu at gam-adnabod Mayfield, gan ychwanegu bod diffyg gwrthrychedd wedi arwain yr archwilwyr i weld tebygrwydd nad oedd mewn gwirionedd yn bresennol.

Dro ar ôl tro roedd yr FBI wedi addasu ffeithiau er mwyn iddynt gyd-fynd â'u damcaniaeth ei fod yn euog. Yn wir roedd cred yr FBI eu bod wedi cael y dyn cywir, er gwaethaf yr holl dystiolaeth i'r gwrthwyneb, mor gryf nes iddynt roi datganiadau camarweiniol ar lw gerbron barnwr.<sup>19</sup>

Mae bod yn ymwybodol o sut y gallwn neidio i gasgliadau yn bwysig i sicrhau ein bod yn wylidwrus o arbenigwyr. Ond mae tuedd i gytuno hefyd yn amlygu sut y gall unrhyw un – nid arbenigwyr yn unig – ddewis a dethol wrth ddefnyddio tystiolaeth ymchwil. Rydym yn chwilio am y dystiolaeth sy'n cyd-fynd â'n credoau, boed hynny'n fwriadol neu beidio. Weithiau cyfeirir at hyn fel 'tystiolaeth sy'n seiliedig ar bolisïau': dewis a dethol ac ôl-osod y dystiolaeth i'r casgliadau rydym wedi eu pennu eisoes yn ein meddyliau. Os ydym yn hael gall hyn fod yn gamgymeriad anymwybodol, ac ar ei waethaf yn gynllun bwriadol i gefnogi ein rhagfarn gan ddod o hyd i dystiolaeth sy'n cyd-fynd a chael gwared ar yr hyn nad yw'n cyd-fynd. Mae'r seicolegydd sydd wedi ennill gwobr Nobel, Daniel Kahneman, ynghyd â'i gydweithwyr Dan Lovallo ac Olivier Sibony, yn nodi 12 ffordd i fynd i'r afael â thuedd i gytuno mewn erthygl ddefnyddiol yn yr Harvard Business Review.<sup>20</sup>

Ffenomen debyg ond gwahanol yw tuedd optimistiaeth. Mae hyn yn berygl go iawn i unrhyw un sy'n sefydlu prosiect newydd mawr yn y sector cyhoeddus neu mewn elusennau – yn enwedig un sy'n cynnwys adeiladau newydd, peirianeg sifil, TG a chontractio gwaith yn allanol. Bu i un astudiaeth ddylanwadol o 258 o brosiectau seilwaith trafndiaeth gwerth US\$90 biliwn ganfod gydag arwyddocâd ystadegol llethol bod yr amcangyfrif o gost wrth gynllunio prosiectau yn hynod ac yn systematig o gamarweiniol.<sup>21</sup> Yn aml, rydym yn canolbwyntio'n ormodol ar y positif, a allai arwain at orwario mawr.

## Rhagfarnau gwybyddol perthnasol i arweinwyr polisi ac arfer cymdeithasol



### Tuedd optimistiaeth / Twyllresymeg cynllunio

Yn fwy tebygol o ddisgwyl canlyniadau cadarnhaol drwy dwyll wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.



### Tuedd i gytuno

Tueddiad i ddehongli a chwilio am wybodaeth sy'n cyd-fynd â chredoau rhywun ymlaen llaw.



### Tuedd ôl-ddoethineb

Tueddiad o weld digwyddiadau'r gorffennol yn fwy rhagweladwy nag yr oedden nhw cyn iddynt ddigwydd.



### Osgoi colli

Tueddiad i ffafrio osgoi colledion na chaffael enillion.



### Effaith fframio

Dod i gasgliadau gwahanol o'r un wybodaeth yn union sydd wedi'i chyflwyno mewn ffyrdd gwahanol (e.e. fyddai'n well gennych chi brydau parod sy'n '85 y cant yn ddi-fraster' neu'n '15 y cant o fraster'?)



### Hewristig argaeledd

Pan fydd pobl yn cymharu maint, amllder neu debygolrwydd problem gyda pha mor hawdd yw ei chofio neu ddychmygu.



### Hewristig cynrychioldeb

Pan fydd pobl yn goramcangyfrif tebygolrwydd digwyddiadau cofiadwy.



### Yr angen am gydlyniant

Yr awydd i sefydlu patrymau a pherthnasoedd achosol pan nad ydyn nhw o bosibl yn bodoli.<sup>22</sup>



### Rhagfarn feta-wybyddol

Y gred nad oes gennym ragfarnau!

(gyda diolch i'r Athro Rob Briner, Prifysgol Caerfaddon, a'r Athro Paul Cairney,<sup>23</sup> Prifysgol Stirling)



Nid yw hyn yn golygu bod barn broffesiynol bob amser yn anghywir. Mae ymchwilwyr eraill fel Gary Klein wedi canu clodydd barn reddfodl arbenigol yn ei waith ar 'wneud penderfyniadau naturiolaid'. Gallai barn broffesiynol a greddfau fod yn hynod werthfawr. Ond mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol o'u hanfanteision. Fel y gwnaeth Daniel Kahneman ei bwysleisio mewn erthygl ar y cyd â Gary Klein yn *American Psychologist*, gwelwyd yn eu hymchwil ddylanwadol bod greddf broffesiynol weithiau'n wych, ac weithiau'n ddiffygiol.<sup>24</sup>



## Trasiedi anwybodaeth broffesiynol dros ymchwil marwolaeth yn y crud

Mae marwolaeth yn y crud yn arswyd a all fod yn hunllef i rieni newydd. Yn ffodus, mae'r achosion o farwolaeth yn y crud, neu Syndrom Marwolaeth Sydyn Babanod (SIDS) i ddefnyddio'r derminoleg feddygol, wedi gostwng. Ond un o drychinebau mwyaf marwolaeth yn y crud yw'r ffaith pe byddem wedi edrych ar y gwaith ymchwil yn hytrach na gwrando ar yr arbenigwyr, gallai bywydau llawer o fabanod fod wedi cael eu hachub yn Ewrop, yn yr Unol Daleithiau ac yn Awstralia.

Yn dilyn cyngor gweithwyr iechyd proffesiynol megis yr enwog Dr Spock, fe wnaeth cenhedlaeth gyfan o rieni osod eu babanod wyneb i lawr yn y crud, gan gredu eu bod yn gwneud y peth iawn. Ond yn ôl Dr Ruth Gilbert o Goleg Prifysgol Llundain mewn erthygl yn *British Medical Journal* yn 2008, erbyn 1970 roedd llawer o dystiolaeth o ymchwil glinigol bod rhoi babanod i gysgu ar eu boliau yn cynyddu'r risg o farwolaeth yn y crud o'i gymharu â rhoi babanod ar eu cefnau.<sup>25</sup> Cafodd ymgyrch iechyd y cyhoedd, 'Nôl i Gysgu' effaith ddramatig ar farwolaeth sydyn babanod, ond ni lansiwyd yr ymgyrch tan fis Tachwedd 1991, ac nid oedd y ffordd fwy diogel o gysgu'n cael ei hargymell tan 1995.

Mae Dr Gilbert yn credu bod y cyngor i roi babanod i gysgu ar eu boliau ers bron i hanner canrif yn groes i'r dystiolaeth sydd ar gael o 1970 ymlaen bod hyn yn debygol o fod yn niweidiol. Byddai adolygiad systematig (gweler tudalen 34) o ffactorau risg y byddai'n bosibl eu hatal ar gyfer SIDS o 1970 ymlaen wedi arwain at gydnabod y niwed o gysgu ar eu boliau yn gynharach a gallai fod wedi helpu i atal rhai o'r 10,000 o farwolaethau babanod yn y DU, a'r 50,000 yn Ewrop, yr Unol Daleithiau ac Awstralia.

### Negeseuon allweddol o Adran A

- Nid ydym o blaid dilyn ymchwil yn slafaid ar draul barn broffesiynol – neu ffynonellau eraill o wybodaeth – ond hefyd **ni ddylech chwaith roi arbenigedd proffesiynol ar bedestal**. Mae ymchwil wedi dangos y gall arbenigwyr weithiau gael pethau'n ofnadwy o anghywir, ac nid ydynt yn ddiogel rhag ystod eang o dueddiadau cymdeithasol a gwybyddol.
- Gall creu tystiolaeth newydd fod yn gostus a gallai gymryd amser, ond mae digon o **dystiolaeth o ansawdd da eisoes yn bodoli** y gellir ei gael 'oddi ar y silff'.
- Un math o dystiolaeth yn unig yw ymchwil, ond mae ganddo fanteision megis **mwy o drylwyredd, perthnasedd ac annibyniaeth** o'i gymharu â mathau eraill o dystiolaeth.

# Adran B

## Pryd gall tystiolaeth eich helpu?

Mae'r adran hon yn edrych ar wahanol sefyllfaoedd lle gall defnyddio tystiolaeth eich helpu, yn ogystal â mathau o dystiolaeth y byddwch eu hangen ar wahanol gamau o ddatblygu.

Gall tystiolaeth wneud sefydliadau'n fwy effeithiol. O ymgyrchu mwy argyhoeddiadol i ennill arian grant; ac o ddatblygu gallu bwrdd i wneud penderfyniadau i wneud yn siŵr bod rhaglenni'n sicrhau canlyniadau – gall tystiolaeth gryfhau eich gwaith. Nid oes ots p'un a ydych yn sefydliad gwirfoddol bach neu'n adran llywodraeth fawr. Beth bynnag fo'r raddfa, mae math o ymchwil fforddiadwy a allai ateb eich anghenion.

Isod ceir rhai enghreifftiau o'r adegau pan allai tystiolaeth eich helpu:

Figure B1: Rhesymau dros fod angen tystiolaeth



Mae'n syniad da dechrau drwy feddwl am amseru. Bydd gwahanol dystiolaeth yn ddefnyddiol ar adegau gwahanol. Bydd angen ichi feddwl am ymchwil briodol sy'n addas ar gyfer gwahanol gamau o fywyd y rhaglen, polisi neu arfer newydd.

Yn nyddiau cynnar menter newydd, gall ymchwil nodi heriau sy'n dod i'r amlwg a maint y broblem. Er enghraifft, gallai astudiaeth hydredol (gweler Tabl C2 ar ddulliau ymchwil gwahanol) sy'n arsylwi pobl dros amser – weithiau degawdau – dynnu sylw at iechyd cyhoeddus sy'n dirywio ymysg grŵp mawr o bobl, megis iselder a morbidrwydd sy'n gysylltiedig ag unigrwydd henaint, neu iechyd a niwed seicolegol anweithgarwch corfforol mewn plant.

## Ffigur B2: Troell arloesi Nesta



Datblygwyd y droell uchod gan Nesta i ddangos camau gwahanol y broses arloesi, a gellir ei defnyddio hefyd i blotio cynnydd dull newydd ar gyfer mater cymdeithasol.<sup>26</sup> Bydd angen mathau gwahanol o dystiolaeth ar adegau gwahanol.

### 1. Archwilio cyfleoedd a heriau

Bydd gweithio drwy ymchwil gyfredol yn eich helpu i ddeall y problemau a'r cyfleoedd sy'n berthnasol i'ch maes neu fater penodol.

### 2. Cynhyrchu syniadau

Ar ôl ichi nodi eich ffocws mae'n amser chwilio am werthusiadau o ymyriadau a pholisïau sydd wedi gweithio – neu wedi methu – yn y gorffennol. Allwch chi fenthyg syniadau llwyddiannus gan eraill ac osgoi ymyriadau sydd wedi methu?

### 3. Datblygu a phrofi

Fel mae syniadau newydd yn cael eu creu, bydd yn bryd dechrau meddwl am brofi ac arbrosi gyda gwahanol ddulliau – ac am werthuso effaith y rhain. Yn adran C, rydym yn trafod Safonau Tystiolaeth sy'n dangos y daith y dylai rhaglenni newydd fynd arni o ran darparu tystiolaeth o effaith.

#### 4. Dadlau'r achos

Bydd cael tystiolaeth o effaith eich profi wedyn yn helpu gyda dadlau'r achos i'r cyllidwyr a chefnogwyr. Bydd hyn yn eich rhoi mewn sefyllfa gryfach i berswadio eich cefnogwyr a symud ymlaen i gyflawni a gweithredu.

#### 5. Cyflawni a gweithredu

Unwaith y byddwch wedi rhoi polisi, rhaglen neu brosiect ar waith mae angen ichi feddwl am sut gallwch ddangos eich effaith. Bydd hyn yn helpu i fynd â chi o sefyllfa o rethreg a dweud 'credwch fi, mae'r prosiect hwn yn gweithio' i un sy'n seiliedig ar dystiolaeth mwy dibynadwy. Bydd hefyd yn helpu gyda'ch atebolrwydd – drwy ddangos eich bod yn gwneud gwahaniaeth, eich bod yn rhoi gwerth am arian, a bod eich gwaith yn agored i'w werthuso.

#### 6. Tyfu, graddio a lledaenu

Y greal sanctaidd ar gyfer llawer o ddulliau arloesol yw ailadrodd a thyfu fel eu bod yn newid pethau ar raddfa fwy – ac y gallant o bosibl gael eu copïo'n llwyddiannus mewn lleoliadau eraill (gweler adroddiad Nesta Making It Big: Strategies for scaling social innovations<sup>27</sup>).

#### 7. Newid systemau

Mae cyflawni newidiadau system gyfan yn hynod gymhleth, ond gellir gweld hyn yn y modd y prif ffrydiwyd ailgylchu, y mudiad hosbis neu'r gwaharddiad ysmegu mewn mannau cyhoeddus. Ffordd dda i gyrraedd y raddfa hon yw cael nifer o astudiaethau annibynnol i ddangos nad yw rhywbeth yn fyrhoedlog yn unig ond yn ffordd effeithiol sy'n gweithio mewn nifer o leoedd.

### Mabwysiadu syniadau o ranbarthau neu sectorau eraill

Hyd yn oed os ydych yn canfod tystiolaeth o lwyddiant polisi neu arfer, a fyddai mabwysiadu'r syniadau hynny'n gweithio yn eich ardal chi?

Er enghraifft, roedd yn ymddangos bod digon o ymchwil gadarnhaol i gefnogi'r Nurse Family Partnership (NFP) - rhaglen wedi'i chreu yn yr Unol Daleithiau sy'n defnyddio nyrsys wedi'u hyfforddi'n arbennig i gynnal ymweliadau cartref gyda merched yn eu harddegau sy'n famau am y tro cyntaf o deuluoedd incwm isel. Mae wedi dangos llwyddiant syfrdanol, gyda gwerth dros ddau ddegawd o dystiolaeth i ategu ei heffeithiolrwydd. Ond daw llawer o'r ymchwil hwnnw o'r Unol Daleithiau, felly a fyddai'n gweithio mewn gwledydd eraill?

Yn sicr nid yw'n ymddangos felly yn y DU. Dangosodd gwerthusiad nad oedd yn debygol bod yr NFP yn gallu cael ei drosi ac nad oedd mor effeithiol yn y DU – efallai oherwydd drwy'r GIG bod mamau Prydain eisoes yn cael mwy o gefnogaeth na mamau'r Unol Daleithiau.<sup>28</sup> Mae'r enghraifft hon yn dangos bod cyd-destun yn bwysig, ac na ddylem gopïo rhaglenni o fannau eraill, oni bai eu bod yn cael eu haddasu i amgylchiadau lleol.

Ac wrth ddylunio rhaglenni newydd gyda'r bwriad o newid y ffordd rydyn ni'n gweithredu – er enghraifft, lleihau ysmegu neu leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol – mae bob amser yn werth edrych ar ymchwil gan y rhai ym maes seicoleg gymdeithasol ac ymchwil ymddygiadol, megis y Behavioural Insights Team. Mae amrywiaeth o dechnegau i 'wthio' pobl at gamau gweithredu dymunol ar sail ymchwil gadarn megis hapbrofion wedi'u rheoli neu ymchwil ethnograffig (gweler Adran C ar ddulliau ymchwil ac ymagweddau).

## Creu damcaniaeth newid

Yn ystod camau cynnar unrhyw ymyrraeth, mae'n bwysig disgrifio'n rhesymegol beth rydych chi'n ei wneud a pham ei fod yn bwysig mewn ffordd gydlynol, glir ac argyhoeddiadol. Yn aml cyfeirir at hyn fel Damcaniaeth Newid, a'i nod yw rhoi:

*"... esboniad clir, cryno ac argyhoeddiadol o beth rydych chi'n ei wneud, yr effaith rydych chi'n gobeithio ei gael, a sut rydych chi'n credu y byddwch chi'n cyflawni hyn. Mae'n sylfaen hanfodol i unrhyw raglen, ac yn rhagofyniad ar gyfer gwerthusiad effeithiol."<sup>29</sup>*

Mae Damcaniaeth Newid yn ffordd ddefnyddiol i fod yn fwy eglur am y dystiolaeth rydych chi'n ei defnyddio gan eraill – a bod yn gliriach o ran sut rydych chi'n mynd i gael canlyniadau. Er enghraifft, os ydych am redeg rhaglen i gael plant yn fwy egniol, pa dystiolaeth sydd allan yno ar newid ymddygiadol effeithiol? Ydy adeiladu rhagor o feysydd chwarae yn ddigon? Pa gymhellion sy'n gweithio mewn gwirionedd ar blant (a'u rhieni) i'w cael oddi ar y sofa? Gallech gasglu rhai pwyntiau defnyddiol o wyddoniaeth ymddygiadol neu o werthusiad rhaglenni gweithgarwch corfforol eraill.

Mae Damcaniaeth Newid yn eich helpu i fod yn glir am eich nodau - a sut byddwch chi'n cyflawni'r nodau hynny. Mae'n helpu i osgoi gobeithio am y gorau'n unig, yn y gobaith y bydd eich arloesedd newydd yn aros ac y bydd eich rhagdybiaeth yn gywir. Mantais arall o wneud Damcaniaeth Newid yw ei fod yn gam cyntaf wrth gynllunio gwerthusiad effeithiol gan ei fod yn ceisio nodi'ch holl ganlyniadau'n gywir, sydd wedyn angen cael eu mesur.

I gael mwy o wybodaeth ar ddatblygu polisi, yn hytrach nag adeiladu elusennau neu raglenni y tu allan i'r llywodraeth, mae Atodiad 1 yn cyflwyno seiliau rhesymegol i dystiolaeth a mathau o dystiolaeth sydd eu hangen i gyfateb i'ch cwestiynau polisi.

Y neges bwysicaf yma yw meddwl am briodoldeb. Rydych eisiau dod o hyd i'r ymchwil sy'n gweddu i'ch anghenion a'r cam datblygu rydych chi arno. Bydd y math o dystiolaeth y bydd ei angen arnoch yn ystod misoedd cyntaf rhaglen newydd yn wahanol iawn i beth fydd ei angen arnoch pan fyddwch wedi eich sefydlu. Rydym yn ail-edrych ar y mater hollbwysig hwn, priodoldeb, yn yr adran nesaf.



## Negeseuon allweddol o Adran B

- Mae **ystod eang o sefyllfaoedd lle gallai tystiolaeth eich helpu**. Nid y rhai amlwg sy'n ymwneud â chasglu canlyniadau rhaglenni, polisïau ac arferion yn unig. Efallai bod manteision eraill nad ydych chi wedi meddwl amdanynt, megis creu ymgyrch fwy argyhoeddiadol, ennill arian grant neu roi'r gorau i wneud rhywbeth nad yw'n gweithio.
- Mae angen i chi feddwl am **amseru a phriodoldeb y dystiolaeth**. Meddyliwch lle rydych chi ar y droell arloesi – a pha dystiolaeth allai fod yn addas i'ch anghenion. Er enghraifft, yn nyddiau cynnar datblygu arloesedd newydd mae'n debyg y byddwch chi eisiau osgoi gwneud gwerthusiad mawr a chostus o'ch gwaith eich hun a dysgu oddi wrth eraill yn lle hynny drwy werthusiadau blaenorol neu ymchwil gwyddonol a chymdeithasol ehangach.
- Mae camau cynnar arloesi hefyd yn amser i greu **Damcaniaeth Newid**. Mae hon yn ffordd ddefnyddiol i fod yn gliriach o ran pa dystiolaeth rydych chi'n ei defnyddio a sut rydych chi am gael canlyniadau. Bydd hefyd yn eich helpu i ddylunio gwerthusiad yn effeithiol.
- Gall rhaglenni, polisïau ac arferion sydd wedi **ennill eu plwyf greu eu harbrefion neu'u gwerthusiadau eu hunain o effaith**. Wrth i arloesedd dyfu, dylech hefyd ystyried nifer o ailadroddiadau i wirio nad oedd y llwyddiant yn fyrhoedlog, ond y gallai weithio mewn lleoedd a chyd-destunau eraill.
- **Nid oes ots beth yw maint eich sefydliad**. Bellach mae llawer o ymchwil ar gael i bawb, hyd yn oed os mai sefydliad gwirfoddol bach ydych chi.

## Adran C

# 'Llunio'r gwadn fel bo'r droed' – Pa dystiolaeth ddylech chi ei dewis?

**Mae'r adran hon yn edrych ar fathau gwahanol o dystiolaeth ac yn edrych ar sut i ddewis yr un mwyaf priodol ar gyfer eich achos chi. Mae hefyd yn trafod sut i farnu ansawdd y dystiolaeth.**

Nid yw pob tystiolaeth yn gydradd. Mae rhai yn gryfach – ac yn fwy perthnasol i'ch her chi – nag eraill.

Neges allweddol yn y canllaw ymarfer hwn yw meddwl am briodoldeb. Mae gormod o bobl yn cael trafferth drwy beidio â meddwl yn glir ynghylch pa fath o ddyluniad ymchwil, dull ymchwil neu ffordd o gasglu data sydd wir am fodloni eu hanghenion. Gallwn gael ein harwain gan ddulliau.<sup>30</sup> Mewn geiriau eraill, rydyn ni'n dewis ein hoff ddull, fel holiaduron neu hap-dreialon wedi'u rheoli, oherwydd mai dyma'r hyn rydyn ni fwyaf cyfforddus ag ef yn hytrach na bod yn fwy agored i'r amrywiaeth o ddulliau sydd ar gael – a meddwl pa un fyddai'n gweddu orau i ateb ein her.

Er enghraifft, mae ymchwil arbrofol yn fwy addas i werthuso effaith a 'beth sy'n gweithio'. Roedd rhwydwaith 'Cychwyn Cadarn' o ganolfannau plant yn y DU – sy'n cynnig cymorth a chynghor ar faterion plant a theuluoedd – yn seiliedig ar werthusiadau hap-dreialon wedi'u rheoli ac adolygiadau systematig (gweler tudalen 23 i gael mwy o wybodaeth am yr agweddau hyn) o fentrau blynyddoedd cynnar yn yr Unol Daleithiau.<sup>31</sup> Ond gall mathau eraill o ymchwil helpu i roi elfennau eraill o ddealltwriaeth. Er enghraifft, ysbrydolwyd llunwyr polisi a oedd yn sefydlu Cychwyn Cadarn gan astudiaethau hydredol – ymchwil sy'n dilyn trywydd pobl dros ddegawdau – a oedd yn dangos tueddiadau hirdymor tlodi plant.

Mae'n bosibl nad yw mathau eraill o ymchwil yn edrych gymaint ar effaith, ond gallant ddatgelu pam a sut mae pethau'n gweithio.<sup>32</sup> Er enghraifft, gwelodd Cyngor Dinas Sunderland fod defnyddio ethnograffi<sup>33</sup> – lle mae'r ymchwilydd yn archwilio o safbwynt y rhai dan sylw – wedi helpu Sunderland i ailgynllunio ei raglen cyflogaeth a lles. Llwyddodd y Cyngor i ddod yn nes at anghenion ei gwsmeriaid gan ei roi ei hun yn esgidiau dinasyddion drwy ethnograffeg. Roedd modd iddynt wedyn wneud arbedion mawr drwy gael dinasyddion yn ôl i waith parhaol (gweler yr astudiaeth achos ar y dudalen nesaf).



## Dysgu drwy wneud – ethnograffeg a beth sy'n gweithio wrth ddod o hyd i swydd

Yn ôl yn 2007, roedd mwy na chwarter y boblogaeth yn Sunderland a oedd o oedran gweithio yn economaidd anweithgar ac roedd Cyngor Dinas Sunderland yn gwario swm sylweddol ar fudd-daliadau. Ond ychydig iawn o gynnydd a gâi ei wneud, felly ceisiodd y Cyngor ddefnyddio ymagwedd newydd; aethant ati i gynnal ymchwil ethnograffig i ddatgelu'r stori go iawn sy'n gysylltiedig â thaith pobl yn ôl i waith, sydd yn aml yn anodd ac yn fiwrocraataidd. Roedd ethnograffeg yn caniatáu iddynt feddwl am y gwasanaethau o safbwynt y defnyddiwr: drwy deithio a siarad gyda phobl ar y daith honno, roedd modd iddynt ddylunio cyfres o wasanaethau a oedd yn eu cefnogi drwyddo.

Yn ei gyfnod cychwynnol, roedd rhaglen Make It Work yn cefnogi dros 1,000 o bobl, gan gynhyrchu arbedion cynnar o fwy na chwarter miliwn o bunnoedd i'r cyngor. Yn ogystal â defnyddio ethnograffeg, roedd eu dull yn arbrol, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac wedi'i brofi gan brototeipio ailadroddol, gan wirio os oedd pethau'n gweithio, a dysgu'n gyflym ac yn rhad o gamgymeriadau a llwyddiannau.

Yr hyn mae'r enghraifft hon yn ei bwysleisio yw nad ydym bob amser yn gwybod beth sy'n gweithio – mae bylchau ac ansicrwydd yn y dystiolaeth. Ond gallwn gymryd ymagwedd arbrol a phrofi wrth inni fynd yn ein blaenau, yn hytrach na meddwl yn afrealistig y byddai ateb cwbl barod yn ei le i'w roi ar waith.

Roedd llwyddiant y rhaglen yn dibynnu ar barodrwydd Cyngor Sunderland i roi cynnig ar rywbeth newydd gan ddefnyddio tystiolaeth oedd yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr lleol, i'w ariannu'n briodol a rhoi'r lle a'r caniatâd iddo arbrol. Cyfanswm cost cynnal y rhaglen oedd £180,000. Mae economegydd ar ran y cyngor wedi amcangyfrif bod y cyngor wedi osgoi cost o £435,000 wrth i gyfranogwyr ymgymryd â gwaith parhaus, gan gyfateb i arbediad cychwynnol o tua £255,000.

Mae'r elw cynnar hwn ar fuddsoddiad yn cael ei fwrw i'r cysgod gan yr arbedion hirdymor sydd i leihau diweithdra. Mae'r Gweinidog Gwladol presennol dros Ddiwygio Lles yn yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi amcangyfrif mai economaidd resymol yw gwario £62,000 ar gefnogi person di-waith cyffredin i ddychwelyd i'r gwaith. £5,000 yn unig yw cost gyfartalog cyfranogi yn rhaglen Make It Work.

Ffynhonnell: *Radical Efficiency; different, better, lower cost public services*, Nesta 2010

Beth bynnag fo'r dull, p'un ai dreialon neu ethnograffeg, mae angen i'r math o ymchwil fodloni anghenion yr her – mewn geiriau eraill, 'llunio'r gwadn fel bo'r droed'.<sup>34</sup>

## RHAN 1: Gwahanol fathau o ddulliau ymchwil, dyluniadau ac ymagweddu

Felly, sut ydych chi'n mynd ati i ddeall pa ddull ymchwil sy'n briodol i'ch achos chi? Os nad ydych chi'n ymchwilydd, gallai fod yn anodd iawn dod wyneb yn wyneb â jargon a rhestrau diddiwedd o agweddu.<sup>35</sup> Er enghraifft, gweler yr enghreifftiau hyn:



Addaswyd o Luff et al. (2015)

Ond ni ddylai rhestrau hir fel hyn eich dychryn gan nad oes angen i chi wybod am bob math o agwedd. Ar gyfer 'defnyddiwr' ymchwil nad yw'n arbenigwr, mae'n llawer pwysicach – a haws – deall y tybiaethau sy'n sail i'r ffyrdd hyn o wneud ymchwil.<sup>36</sup>

Mae'r rhagdybiaethau hyn wedi'u casglu gan *How To Note*<sup>37</sup> yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol (DFID), ac maen nhw'r un mor berthnasol i bolisi cymdeithasol ag y maen nhw i ddatblygu rhyngwladol:

- Mae rhai cynlluniau ymchwil yn fwy addas ar gyfer **dangos** presenoldeb perthynas achosol, megis dyluniadau arbrolfol a lled-arbrofol.
- Mae eraill yn fwy priodol ar gyfer **egluro** perthynas achosol o'r fath – gweler Y Tu hwnt i Arbrolfion: ymagweddau newydd at werthuso ar dudalen 28.
- Er bod rhai dyluniadau yn fwy defnyddiol ar gyfer **disgrifio** cyd-destunau gwleidyddol, cymdeithasol ac amgylcheddol – megis astudiaethau arsylwi.

I ddeall ychydig mwy am fanteision ac anfanteision yr agweddau hyn, gweler Tabl C1.

Tabl C1: **Dyluniadau, dulliau ac ymagweddau gwahanol o dystiolaeth ymchwil – trosolwg byr**

Mathau o ymchwil a gwerthuso	Beth ydyw?	Manteision	Anfanteision
<b>Hanes personol</b>	Adroddiad gan berson gyda phrofiad uniongyrchol o fater penodol, neu sydd wedi'i effeithio gan fater penodol.	Pwerau ac ar unwaith; gallai roi dealltwriaeth fyw o ddigwyddiadau sydd wedi'u cuddio oddi wrth lawer o'r boblogaeth. <sup>38</sup>	Anodd i'w ddilysu; gallai arwain at chwyddo pa mor gyffredin ydyw; gallai straeon emosiynol person cyntaf lesteirio gwerthuso beirniadol; efallai nad yw hanesion unigol yn gynrychioladol.
<b>Adborth defnyddiwr gwasanaeth</b>	Adroddiadau naratif neu arolwg o farn defnyddwyr neu anghenion a nodwyd.	Dealltwriaeth werthfawr gan y rhai hynny sy'n ddefnyddwyr; gorfodi gweithwyr proffesiynol i ganolbwyntio ar flaenoriaethau defnyddwyr y gwasanaeth.	Mae'r gydberthynas rhwng boddhad ac effeithiolrwydd gwasanaeth yn isel; efallai nad yw'r anghenion a fynegwyd yn trosi i ddefnydd gwasanaeth gwirioneddol.
<b>Astudiaeth achos unigol</b>	Archwiliad manwl a dwys o achos unigol fel cymuned, teulu, sefydliad, digwyddiad neu unigolyn.	Hawdd ac ymarferol; gall gael ei defnyddio gan ymarferwyr a'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr; yn dda ar gyfer ymyriadau sydd wedi digwydd eisoes; o bosibl gallant nodi canlyniadau andwyol i'r ymyriad; yn helpu i ddisgrifio arloesedd; cynhyrchu rhagdybiaethau ar gyfer astudiaethau eraill.	Yn ddrwg am gasglu achosiaeth; maint bach yn golygu ei bod yn anodd cyffredinoli i lefel genedlaethol/poblogaeth.
<b>Astudiaethau achos rheoli</b>	Yn cymharu grŵp â chyflwr iechyd, er enghraifft, gyda grŵp nad oes ganddynt y chyflwr iechyd, ac yn edrych yn ôl mewn amser i weld sut mae nodweddion y ddau grŵp yn wahanol.	Angen llai o adnoddau i'w gynnal nag astudiaethau ymyriad; defnyddiol pan nad yw hap-dreialon wedi'u rheoli yn ymarferol, e.e. astudiaethau ynghlych marwolaeth yn y crud.	Prin mewn polisi cymdeithasol (gweler gwerthusiad 'seiliedig ar achos' isod sy'n gysylltiedig ond yn fwy cyffredin mewn polisi cymdeithasol), mwy cyffredin mewn epidemioleg ac iechyd; darparu llai o dystiolaeth ar gyfer casgliad achosol na hap-dreialon wedi'u rheoli; risg uchel o duedd e.e. tuedd cofio, tuedd dethol, tuedd cyfwelydd.



<p><b>Cyfranogol</b></p>	<p>Ymagwedd lle mae barn a phrofiadau rhanddeiliaid a buddiolwyr yn cael eu hamlygu. Gellir ei ddisgrifio fel dyluniadau normadol; gwerthuso cyfranogol neu ddemocrataidd; gwerthusiad ymrymuso, dysgu drwy wneud; deialog polisi; ymchwil gweithredu cydweithredol.</p>	<p>Y buddiolwyr yw'r gorau am nodi'r damcaniaethau newid mwyaf perthnasol a chanlyniadau ystyrion; mwy o botensial i fod yn foesebol a democrataidd a deall beth mae buddiolwyr ei eisiau mewn gwirionedd; mwy priodol i ymyriadau 'dan arweiniad gwerthoedd'; mwy o gyfleoedd ar gyfer mabwysiadu rhaglen oherwydd cysylltiadau agos â'r buddiolwyr; y gallu i addasu a phersonoli ymyriad.</p>	<p>Dadl nad yw'n wrthrychol o'i hanfod, ei fod yn agored i duedd ac nad ymchwil ydyw mewn gwirionedd ond yn fwy tebyg i ideoleg a gweithrediaeth gymunedol.<sup>39</sup></p>
<p><b>Seiliedig ar ddamcaniaeth</b></p>	<p>Ffordd i werthuso sy'n edrych ar yr hyn sy'n digwydd o'i gymharu â damcaniaethau sy'n bodoli eisoes neu lwybrau achosol a nodwyd yn ystod gwerthusiad. Gall fod yn gysylltiedig â gwerthuso realydd; dadansoddiad cymharol ansoddol (QCA); dadansoddi cyfraniad; olrhain proses.</p>	<p>Cryf o ran esbonio achosion; gellir ei ddefnyddio mewn meysydd mwy blêr o bolisi cymdeithasol lle gallai nifer o achosion a chyd-destunau fod yn bwysig [<i>Noder: defnyddir y categori hun yn eang iawn fan hyn. I gael rhagor o fanylion ar y maes hun gweler Stern (2015)<sup>40</sup> a White a Phillips (2012)<sup>41</sup></i>].</p>	<p>Diffyg dulliau y cytunwyd arnynt; cyfleoedd am duedd; gwan o ran amcangyfrif swm neu raddau'r effaith; ychydig o werthusiad o'r technegau a ddefnyddiwyd e.e. o'i gymharu â'r corff mawr o lenyddiaeth sy'n beirniadu hap-dreialon wedi'u rheoli.</p>
<p><b>Astudiaeth drawstoriadol</b></p>	<p>Sampl gynrychioliadol o bobl wedi'u holi ar un pwynt mewn amser. Er bod arolygon fel holiaduron a chyfweliadau strwythuredig yn cael eu defnyddio'n aml mewn dyluniad trawstoriadol, nid y rhain yw'r unig ffyrdd e.e. gellir defnyddio dadansoddi cynnwys neu ddadansoddi ystadegau swyddogol.</p>	<p>Gellir archwilio data meintiol i ganfod patrymau cysylltiad; cymharol rad a moesegol; gellir ail-adrodd yr arolwg ar ôl cyfnod o amser, gan ddangos tueddiadau'n newid dros amser (gweler Hydredol isod).</p>	<p>Sefydlu cysylltiad ar y gorau, nid achosiaeth; prin yn bosibl priodoli unrhyw newid a fesurwyd i'r ymyriad, na deall beth fyddai wedi digwydd yn absenoldeb yr ymyriad – e.e. gallai'r newid fod wedi bod yn fater ehangach fel amodau economaidd, tywydd, ymgyrchoedd y cyfryngau – yn hytrach na'r ymyriad. Anfanteision eraill: perygl o duedd cofio, tuedd dymunolrwydd cymdeithasol, tuedd ymchwilydd (Neyman); gallai meintiau grwpiau fod yn anghyfartal; gallai ffactorau sy'n drysu fod wedi'u rhannu'n anghyfartal.</p>
<p><b>Astudiaethau carfan/hydredol</b></p>	<p>Yr un sampl o bobl yn cael eu holi dros nifer o gyfnodau mewn amser, weithiau o blentyndod i henoed.</p>	<p>Ffynhonnell orau o dystiolaeth ar y cysylltiad rhwng profiad plentyndod a chanlyniadau oedolion a gall roi cefnogaeth gref i ymyriadau cynnar penodol.</p>	<p>Yn aml daw'r data i'r amlwg yn rhy hwyr ar gyfer llunio polisi; gallai aelodau'r astudiaeth dynnu'n ôl dros amser; dull drud iawn o'i gynnal dros ddegawdau.</p>

<b>Dyluniad led-arbrofol</b>	Cynigir ymyriadau gwahanol ond heb unrhyw hap-ddyraniad i grwpiau e.e. drwy ddefnyddio poblogaethau naturiol neu gyfateb achosion.	Gall gynnig tystiolaeth resymol gref o'r berthynas rhwng yr ymyriad a'r canlyniadau mesuradwy; dull pŵerus o archwilio effaith ymyriad pan fo hapddewis yn amhosibl; gellir ei ddefnyddio ar gyfer cymunedau mawr yn ogystal â grwpiau; dim angen hapddewis o'r dechrau (ex-ante), sy'n osgoi'r materion PR a moesegol sy'n ymwneud â hapddewis.	Dim modd sicrhau bod grwpiau'n cyfateb nac atal newid dros amser, ac mae hynny'n arwain at ganfyddiadau llai dibynadwy; mae technegau cyfateb yn galw am lawer o ddata mewn grwpiau ymyrraeth a grwpiau cymharu a gallai hyn gymryd amser a bod yn ddrudd; mae angen dealltwriaeth dda o'r ffactorau sydd angen eu cyfateb – heb hyn, mae'n bosibl bod gwahaniaethau systematig rhwng y dda grŵp nad ydynt yn cael eu rheoli; mae ar y dyluniadau hyn angen gwaith dadansoddol cymhleth a gwybodaeth arbenigol.
<b>Hap-dreialon wedi'u rheoli (RCT)</b>	Mae un grŵp yn derbyn ymyriad tra bo grŵp arall yn derbyn dim neu fath arall o ymyriad, gyda siawns unfath bod y naill grŵp neu'r llall yn destun treial.	Yn aml, y canfyddiadau mwyaf cadarn a dibynadwy, sy'n rhoi hyder bod unrhyw wahaniaeth a fesurir rhwng grwpiau o ganlyniad i'r ymyriad; dylai hapddyrrannu oresgyn unrhyw wahaniaeth systematig rhwng grwpiau; mwy o hyder ym maint yr effaith, a'r berthynas rhwng yr ymyriad a'r canlyniad; dull a gydnabyddir yn rhyngwladol.	Gwael am ystyried cyd-destun e.e. amgylchiadau diwylliannol, hanesyddol ac economaidd; anodd i'w cynnal ar lefel poblogaeth genedlaethol; risg pan ddefnyddir ar lefel peilot bach nad yw'n berthnasol ar lefel y boblogaeth (er bod hyn yn risg ar gyfer yr holl ddyluniadau); gallai fod yn anodd trin newidynnau i arbrofi mewn polisi cymdeithasol e.e. dosbarth, tras neu ble rydych yn byw; gall camgymeriadau wrth hapddewis achosi i'r canlyniadau fod yn annilys; gallai fod yn anodd perswadio'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau e.e. gwleidyddion) am fanteision y dyluniad hwn; materion gwleidyddol, moesegol a chysylltiadau cyhoeddus posibl ynghylch hapddewis (e.e. rhai grwpiau ar hap yn cael ymyriadau a allai fod yn fuddiol, ac nid eraill); gall gymryd mwy o amser i'w rheoli a'u sefydlu na lled-arbrofion.
<b>Adolygiadau systematig/meta-ddadansoddi</b>	Cyfuno canlyniadau astudiaethau cymwys, gyda'r meini prawf cymhwysedd wedi'u diffinio ymlaen llaw a'r fethodoleg wedi'i hadolygu.	Ffynhonnell orau o sicrwydd bod ymyriad yn gweithio (neu nad yw'n gweithio); meta-ddadansoddi yn cydgasglu canlyniadau ystadegol; mae i adolygiadau mawr rym ystadegol sylweddol; gellir ei efelychu gan ymchwilwyr eraill; gellir ei ddefnyddio gydag unrhyw fath o ddata.	Mae angen nifer sylweddol o astudiaethau cynradd cadarn mewn maes penodol; methodoleg heb ddatblygu cymaint ar gyfer cyfod data ansoddol a llenyddiaeth 'lwyd' [Am ymagweddau ehangach ar gyfod, gweler dulliau eraill fel cyfod naratif, a chyfod yn seiliedig ar realydd].

Addaswyd o: Quality in policy impact evaluation: understanding the effects of policy from other influences. (canllaw atodol i'r Magenta Book) Trysorlys Ei Mawrhydi/DEFRA/DECC (Llywodraeth ei Mawrhydi: 2012); The Evidence Guide; Using Research and Evaluation in Social Care and Allied Professions (2006) Barnado's/What Works for Children?/Centre for Evidence-Based Social Services; a Petticrew, M. a H. Roberts (2003), 'Evidence, hierarchies and typologies: horses for courses'. Journal of Epidemiology and Community Health.' 57: 527-529 (2003); Stern, E. (2015) 'Impact Evaluation; A Design Guide for Commissioners and Managers of International Development Evaluations In the Voluntary and Community Sector.' Tabl 2, t.18.

## Ymchwil arbrofol – pam yr holl ffws?

Mae ymchwil arbrofol megis hap-dreialon wedi'u rheoli (RCT) wedi cael llawer o sylw<sup>42</sup> – gormod, yn ôl rhai. Felly pam maen nhw wedi denu cymaint o sylw?

Yn aml, mae'r rhai sy'n gweithio ym maes polisi cymdeithasol eisiau gwybod os yw ymyriad wedi cael effaith. A oes cysylltiad achosol rhwng eich rhaglen newydd a'r 'canlyniad', 'traweffaith', 'effaith' a'r 'canlyniad' ar y diwedd? Er eu bod yn anodd i'w rhoi ar waith yn ymarferol, yn aml mae gan y dyluniadau arbrofol well siawns o ddilyn trywydd yr achos a'r effaith hwn.

Yn syml, gall arbrofion brofi dau grŵp nad ydynt ar hap cyn ac ar ôl ymyriad. Ond mae'n bosibl y bydd risg bod gan grwpiau duedd neu nad ydynt yn gynrychiadol o'r grwpiau o dan ystyriaeth – er enghraifft, mae'n bosibl y bydd rhywun sy'n gofyn am ymyriad yn fwy rhagdueddol tuag at ganlyniadau cadarnhaol. Efallai fod ganddynt fwy o gymhelliant, neu'n fwy iach, yn fwy hyderus, ac felly'n fwy tebygol o wneud yn dda waeth beth fo'r 'driniaeth'.

I gael gwared ar y duedd hon, gallwn ddefnyddio proses hapddewis: mae'r grwpiau a gaiff eu cymharu yn cael eu dewis ar hap yn llwyr, er enghraifft drwy dynnu tocyn. Mae'r blwch isod yn rhoi disgrifiad mwy cyflawn o'r dull hwn, a ddaw o atodiad i Magenta Book Trysorlys Ei Mawrhydi.

### Dyluniadau ymchwil arbrofol

"Bydd dyluniad arbrofol, sydd wedi'i gynnal yn briodol, yn pennu p'un a wnaeth ymyriad achosi canlyniad. Mae dyluniadau gwerthuso o'r fath yn defnyddio dyraniad ar hap i roi unedau asesu (unigolion/grwpiau) naill ai i'r ymyriad neu i'r grŵp gwrthffeithiol (a elwir yn aml yn 'grŵp dan reolaeth' mewn dyluniad arbrofol). Drwy ddefnyddio maint sampl priodol a dyraniad priodol i'r grwpiau arbrofol neu grwpiau dan reolaeth, dyma'r ffurf gryfaf o ddylunio ar gyfer gwerthusiad effaith, gan fod y dyraniad ar hap yn lleihau'r tebygolrwydd o unrhyw wahaniaethau systematig - y rhai y gwyddom amdanynt neu'r rhai na wyddom amdanynt - rhwng y grwpiau. Felly mae'n caniatáu priodoli achos ac effaith."

*O'r Magenta Guide: Trysorlys ei Mawrhydi, DECC a DEFRA (2012) 'Quality in policy impact evaluation; understanding the effects of policy from other influences.'*

Mae cyflwyno grŵp dan reolaeth yn cael gwared ar amrywiaeth eang o dueddiadau sydd fel arfer yn cymhlethu'r broses werthuso – er enghraifft, os byddwch chi'n cyflwyno cynllun 'yn ôl i'r gwaith', sut fyddwch chi'n gwybod na fyddai'r rhai hynny sy'n cael cefnogaeth ychwanegol wedi dod o hyd i swydd beth bynnag?



### Making it work - ymchwil arbrofol ar fudd-daliadau analluogrwydd

Yn 2003, cynhaliodd yr Adran Gwaith a Phensiynau hapdreial dan reolaeth i archwilio effaith tair rhaglen newydd ar gyfer y sawl sy'n hawlio Budd-dâl Analluogrwydd. Y rhain oedd: cefnogaeth yn y gwaith, cefnogaeth yn seiliedig ar eu hanghenion iechyd unigol, neu'r ddau. Costiodd y gefnogaeth ychwanegol £1,400 ar gyfartaledd, ond ni lwyddodd yr hapdreialon dan reolaeth i ganfod unrhyw fantais dros y gefnogaeth a oedd eisoes ar gael. Yn y pen draw, fe wnaeth arbed llawer o arian i'r trethdalwr gan iddo ddarparu tystiolaeth eglur nad oedd y gefnogaeth ddud ychwanegol yn cael yr effaith a fwriadwyd.

Yn fwy diweddar roedd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn awyddus i archwilio p'un a fyddai'n bosibl lleihau dwyster y broses gofrestru ar gyfer ceiswyr gwaith ar fudd-daliadau, heb waethygu'r canlyniadau.

Mewn treial yn cynnwys dros 60,000 o bobl, cymharwyd y broses gofrestru arferol bob pythefnos gyda nifer o rai eraill a oedd yn llai dwys o ran adnoddau (e.e. cofrestru dros y ffôn, yn llai aml). Yn y treialon hynny a oedd yn ddigon mawr i ddangos effeithiau dibynadwy, gwelwyd bod yr holl opsiynau amgen i'r sefyllfa bresennol yn lleihau'r amser a gymerai pobl i ddod o hyd i waith. O ganlyniad, er gwaethaf newidiadau eraill i'r system fudd-daliadau, mae polisi'r Adran Gwaith a Phensiynau yn parhau i olygu bod gofyn i bobl gofrestru bob pythefnos.

Ffynhonnell: Swyddfa'r Cabinet (2012) *Test, Learn, Adapt: Developing Public Policy with Randomised Controlled Trials*.

## Materion ymarferol a moesegol

Beirniadaeth gyffredin o hapdreialon dan reolaeth yw eu bod yn anymarferol, ond yn aml, mae ffyrdd o amgylch hyn. Er enghraifft, mae'n bosibl defnyddio dyluniad 'lletem raddol' (gweler Atodiad 2 ar ffyrdd gwahanol o wneud treialon) fel ateb i rai o'r problemau moesegol ac ymarferol. Yn yr agwedd hon, mae pawb, yn y pen draw, yn cael yr ymyriad – megis dull dysgu newydd mewn ysgolion neu arloesedd lleihau troseddau.

Ond gyda threialon 'lletem raddol', mae'r drefn y mae cyfranogwyr yn derbyn yr ymyriad yn cael ei benderfynu drwy loteri. Caiff ei gyflwyno'n raddol dros amser – ond mae pwy sy'n ei gael yn cael ei ddewis ar hap. Gall hyn fod yn hynod ymarferol mewn byd o lymder. Yn aml, gan nad oes digon o adnoddau i roi rhaglen newydd ar waith yn llwyr ar unwaith, gall rhoi'r rhaglen ar waith yn raddol fod yn gost-effeithiol. Mae Atodiad 2 yn cynnwys trosolwg byr o hyn a phedwar dull ymchwil arbrofol gwahanol.

## Canllawiau defnyddiol ar ymchwil arbrofol

- *Randomised controlled trials – gold standard or fool's gold? The role of experimental methods in voluntary sector impact assessment* – cyflwyniad sylfaenol deng tudalen i hap-dreialon wedi'u rheoli i elusennau gan y Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol/y Gwasanaeth Gwerthuso Elusennau
- *Test, Learn, Adapt: Developing Public Policy with Randomised Controlled Trials* – canllaw defnyddiol gan Swyddfa'r Cabinet
- *Better Public Services through Experimental Government* – adroddiad Nesta ar rai o'r mythau sy'n ymwneud â moeseg a chostau hap-dreialon wedi'u rheoli.
- *Developing and evaluating complex interventions: new guidance* – canllawiau rhagorol ar amrywiaeth o hap-dreialon wedi'u rheoli a ffyrdd eraill i werthuso ymyriadau cymhleth gan y Cyngor Ymchwil Feddygol (gydag enghreifftiau o faes polisi cymdeithasol, nid meddygaeth yn unig).

## Pan nad yw dewis ar hap yn briodol

Mae'n bosibl na fydd dewis testunau eich ymchwil ar hap yn briodol. Gallai fod yn gwbl afrealistig amlygu eich 'testunau arbrol' yn fwriadol i rywbeth niweidiol fel ysmegu sigarêts neu stad o dai sy'n llawn trosedd. Gallai fod yn fwy priodol defnyddio dyluniadau nad ydynt ar hap neu 'arbrolion naturiol'.

Mae astudiaeth achos marwolaeth yn y crud (gweler tudalen 14) yn enghraifft lle na fyddai neb yn ei iawn bwyll yn cynnal arbrawf – gyda rhai babanod yn cysgu ar eu boliau ac eraill ar eu cefnau i brofi p'un a ydynt yn marw ai peidio. Ond mae modd inni gymharu grwpiau sydd wedi cael profiadau gwahanol. Defnyddiodd yr ymchwil ar farwolaethau yn y crud 'astudiaethau achos wedi'u rheoli'<sup>43</sup> (gweler eitem chwech yn Nhabl C1).

Mae enghreifftiau eraill o ymchwil sydd wedi defnyddio Hapdreialon dan Reolaeth nad ydynt yn draddodiadol ond a ddefnyddiodd grwpiau cymharol i weld p'un a oes unrhyw gysylltiad. Er enghraifft, rydym wedi gallu cymharu achosion gwahanol ar ddeddfwriaeth i osgoi manteisio ar dulliau hunanladdiad, yr effaith ar reoliadau llygredd aer mewn ardaloedd gwahanol ac effaith gwahardd ysmegu mewn mannau cyhoeddus.<sup>44</sup>

## Dyluniadau lled-arbrofol

Mae amrywiaeth eang o 'ddyluniadau lled-arbrofol', yn aml gyda theitlau lletchwith megis Dyluniadau Cyfres Amser Bylchog', Dyluniad Procsi Cyn Prawf, Dyluniad Newidynnau Dibynnol Anghyferth, Dyluniad Cyfateb Patrwm, a Dyluniad Dadleoli Pwynt Atchweliad.

Roedd yr Athro Donald Campbell, cynigydd dylanwadol hap-dreialon wedi'u rheoli a dyluniadau lledarbrofol yn y 1960au yn yr Unol Daleithiau, yn aml yn cyfeirio atynt fel arbrolion "queasy" am eu bod yn achosi i buryddion arbrolol deimlo'n sâl. Ond mae dyluniadau lled-arbrofol yn dal i fod yn ddefnyddiol pan nad yw hap-dreialon wedi'u rheoli yn ymarferol. Bu'r Gynghrair ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol yn cydweithio â'r Comisiwn Ewropeaidd, JPAL Europe a'r LSE i lunio *Testing Social Policy Innovations*<sup>45</sup> sy'n mynd i'r afael â nifer o ddyluniadau lled-arbrofol cyffredin, ac mae hwn ar gael ar ein gwefan.

## Y tu hwnt i arbrolion: ymagweddau newydd at werthuso

Mae llawer o safbwyntiau presennol ar effaith wedi symud oddi wrth ddibynnu ar arbrolion yn unig.<sup>46</sup> Gallai hap-dreialon wedi'u rheoli neu led-arbrofol weithio'n dda pan fydd ymyriad syml y gellir ei brofi. Ond anaml iawn y bydd gennym ymyriadau syml o'r fath. Er enghraifft, anaml y bydd cyrff anlywodraethol sy'n gweithio mewn cymdeithas sifil yn gweithio ar eu pen eu hunain neu'n cael y cyfle i lywio 'triniaeth' arbrolol clir ar gyfer hap-dreial wedi'i reoli. Mae gwerthuswyr yn edrych ar ffyrdd eraill o wneud pethau, dulliau sy'n cynnwys symud y tu hwnt i siarad am achosiaeth un i un – ac yn meddwl am eich 'cyfraniad'.

Ym myd cymhleth polisi cymdeithasol, mae'n annhebygol mai eich rhaglen yw'r amod angenrheidiol neu ddigonol i sicrhau llwyddiant. Mae'n debygol mai un ffactor ymysg nifer ydyw, rhan o 'becyn achosol'. Mae llwyddiant y rhaglen yn dibynnu ar beth arall sy'n digwydd neu sydd wedi digwydd o'ch amgylch. Yn y gorffennol, roedd hi'n bosibl y byddai esboniad achosol o 'beth sy'n gweithio' wedi bod yn ddigon, ond heddiw mae'n llawer mwy cyffredin i ymchwilwyr gwerthuso ofyn: 'a ydyn ni wedi gwneud gwahaniaeth?'<sup>47</sup>

Mae'r ddadl dros ymagweddau o'r fath sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth wedi'u cyflwyno'n argyhoeddiadol mewn canllaw rhagorol a gynhyrchwyd ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr, BOND, Comic Relief a DFID. Mae'n dangos bod esboniad, yn hytrach nag achosiaeth yn unig, yn bwysig ar gyfer unrhyw werthuswr:

*"Efallai y byddwch yn dod i gasgliad (neu resymiad achosol) o werthusiad bod ariannu ar gyfer rhaglenni addysg i ferched wedi arwain at neu wedi 'achosi' incwm teuluol uwch mewn cymuned benodol. Fodd bynnag, pan mae'n dod yn amlwg nad yw rhaglenni addysgiadol tebyg bob amser yn arwain at yr un canlyniad ym mhob man, mae pobl yn dechrau gofyn 'pam?'.*

*Mewn gwerthuso effaith, fel mewn ymchwil gwyddonol, mae esboniad yn y pen draw yn dibynnu ar ddamcaniaethau da. Mae agor y 'blwch du' sy'n cysylltu'r 'achosion' a'r 'effeithiau' yn galw am wahanol fathau o ddadansoddi, sef yr hyn a fwriedir i 'ddamcaniaethau newid' a 'damcaniaeth rhaglen' eu cefnogi.*

*Mae datblygiadau mewn gwerthuso effaith hefyd wedi achosi i werthuswyr fod yn ymwybodol bod angen iddynt ddefnyddio damcaniaethau cymuned, cymdeithasol ac economaidd ehangach er mwyn dehongli data cymhleth neu ddata sy'n aml yn ddryslyd neu'n groes hyd yn oed."*

Ffynhonnell: Stern, E (2015) *Impact Evaluation; A Design Guide for Commissioners and Managers of International Development Evaluations In the Voluntary and Community Sector*. Wedi'i baratoi ar gyfer Bond, Comic Relief, Y Gronfa Loteri Fawr

Mae amrywiaeth o ymagweddau sy'n dod yn fwy poblogaidd ymysg gwerthuswyr, megis dyluniadau sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth<sup>48</sup> a dyluniadau sy'n seiliedig ar achosion, gwerthusiad realydd,<sup>49</sup> dadansoddi cyfraniad,<sup>50</sup> olrhain proses<sup>51</sup> neu ddadansoddi ansoddol cymharol.<sup>52</sup>

Yn hytrach na gorgyffredinoli ynglŷn â'r dulliau hyn, mae'n werth ystyried un enghraifft: dadansoddi cyfraniad. Nid yw'r math hwn o ymchwil yn ceisio profi bod un ffactor – polisi er enghraifft – wedi 'achosi' y canlyniad a ddymunir, ond yn hytrach yn archwilio'r cyfraniad mae polisi'n ei wneud i'r canlyniadau a arsylwir. Mae'n cydnabod bod effeithiau'n cael eu creu gan nifer o achosion yr un pryd, nid un yn unig. Mae gan Lywodraeth yr Alban ganllaw byr<sup>53</sup> ar y dechneg hon ac mae'n dweud y gallai fod yn ddefnyddiol pan nad yw arbrofion yn ymarferol:

*"Drwy ddatblygu 'damcaniaeth newid' sy'n dangos y cysylltiadau rhwng y gweithgareddau, y canlyniadau a chyd-destunau'r polisi a chasglu tystiolaeth o ffynonellau amrywiol i brofi'r ddamcaniaeth hon, y nod yw creu 'stori perfformiad' gredadwy. Gallai hyn ddangos p'un a oedd polisiâu a rhaglenni'n ffactor dylanwadol pwysig mewn gwirionedd wrth roi hwb i newid, efallai ynghyd â ffactorau eraill."*

Efallai nad yw'r holl ymagweddau hyn yn newydd.<sup>54</sup> Yn wir, mae cael damcaniaeth dda bob amser wedi bod wrth wraidd gwyddoniaeth dda – felly nid yw ymagweddau sy'n 'seiliedig ar ddamcaniaeth' yn ymddangos yn bethau mor newydd â hynny. Ond mae'r ffyrdd hyn o werthuso effaith wedi tyfu o ran poblogrwydd ac maen nhw'n helpu gwerthuswyr i roi sylw i fwy nag un achosiaeth.



## A oedd hi werth ei wneud? Gwerth dadansoddi cost a budd

Os ydych chi'n taflu llawer o arian at unrhyw broblem gymdeithasol, mae'n debyg y byddwch chi'n cael rhyw fudd. Ond ydych chi'n cael gwerth am arian? Pan fydd cyllidebau'n dynn, mae angen i ni wneud penderfyniadau ariannol anodd o ran p'un a yw un peth yn fwy gwerthfawr o'i gymharu ag un arall. Mae llunwyr polisi, comisiynwyr gwasanaethau, cyrff sy'n creu grantiau ac arianwyr elusennol oll yn gofyn am fwy o fesurau effaith ar gyfer pob ceiniog maen nhw'n ei dosbarthu. Gall technegau fel dadansoddi cost a budd helpu i roi dealltwriaeth o werth. Mae'n arwain at briodoli gwerth ariannol i effaith, sy'n golygu bod nifer o elusennau a chyrrff cyhoeddus yn amlwg yn chwilfrydig yn yr hinsawdd ariannu presennol.<sup>55</sup>

Mae'n bwysig nodi bod amrywiaeth o dechnegau. Un ffordd yn unig yw dadansoddi cost a budd o gymharu costau gyda buddiannau ariannol. Mae'n werth crybwyll dwy ymagwedd arall: dadansoddi cost-effeithiolrwydd a dadansoddi cost a chanlyniad. Mae'r gwahaniaethau rhwng dadansoddi cost-effeithiolrwydd a dadansoddi cost a chanlyniad yn eithaf technegol ac maen nhw'n addas i arbenigwyr, ond y gwahaniaeth cyffredinol gyda dadansoddi cost a budd yw eu bod yn mesur canlyniadau mewn unedau yn hytrach na ffigurau ariannol. Mae technegau eraill wedi cael eu datblygu'n benodol ar gyfer gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol, megis elw cymdeithasol ar fuddsoddiad.<sup>56</sup>

Oherwydd yr ystod eang hon o ddulliau, os ydych am gynnal dadansoddiad cost a budd ar un o'ch rhaglenni gwaith eich hun, rydym yn argymhell eich bod yn defnyddio teclyn sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio a'i gydnabod yn eang – gweler isod am ddetholiad o ganllawiau ar ddadansoddi cost a budd.

## Canllawiau ar ddadansoddi cost a budd

Mae'r *Green Book*<sup>57</sup> gan Drysorlys Ei Mawrhydi – canllaw ar gyfer arfarnu a gwerthuso polisiâu, rhaglenni a phrosiectau sy'n berthnasol i elusennau a darparwyr gwasanaeth yn ogystal â llywodraeth – yn cynnwys model dadansoddi cost a budd a ddefnyddir yn aml yn y sector cyhoeddus.

Mae angen i sefydliadau sy'n dymuno datblygu'r math hwn o ddadansoddiad gasglu data ar elfennau fel dangosyddion perfformiad allweddol, costau cyflenwi gwasanaeth, a (lle y bo'n bosibl) canlyniadau neu effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae canllawiau ar ba ddata i'w gasglu i'w weld mewn cyhoeddiad arall gan Lywodraeth y DU o'r enw *Choosing the Right FABRIC*,<sup>58</sup> ac mae nifer o sefydliadau sy'n gweithredu yn y sector cyhoeddus wedi defnyddio dull o gasglu a dadansoddi data perfformiad fel a nodir yn y ddogfen hon.

Canllaw defnyddiol arall, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n gweithio ar brosiectau lleol ac sydd â chyllidebau dadansoddi tynn, yw *Supporting public service transformation: cost benefit analysis guidance for local partnerships* a gynhyrchwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, Public Service Transformation Network a New Economy in Manchester.<sup>59</sup> Mae wedi'i ddylunio i symleiddio a lleihau cost cynnal dadansoddiad cost a budd ar gyfer rhaglenni lleol sydd â'r nod o wella gwasanaethau cyhoeddus lle gallai adnoddau dadansoddi ac ymchwil fod yn gymharol gyfyngedig. Mae'n berthnasol i elusennau a busnes, yn ogystal â'r sector cyhoeddus.

Ar gyfer elusennau, bydd dogfen y Gronfa Loteri Fawr, *A Guide to Cost Benefit Analysis' Wellbeing Programme: Evaluation and Learning* hefyd yn ddefnyddiol.



## Negeseuon allweddol ar gyfer Rhan 1 Adran C

- **Nid yw pob tystiolaeth yn gyfartal.** Mae rhai o ansawdd gwell a byddant yn fwy priodol i'ch her.
- Beth bynnag fo'r dull, p'un ai'n hapdreial wedi'i reoli neu ethnograffeg, mae angen i'r math o ymchwil **fod yn addas i anghenion yr her** – hynny yw: 'llunio'r gwadn fel bo'r droed'.<sup>60</sup>
- Peidiwch â **chael eich dychryn gan restr hir o ddulliau ymchwil**, dyluniadau ac ymagweddau. Pwysicach yw deall y tybiaethau sy'n sail i'r ffyrdd hyn o wneud ymchwil.
- Mae rhai dyluniadau ymchwil yn fwy addas ar gyfer dangos presenoldeb **perthynas achosol**, megis dyluniadau arbrofol a dyluniadau lled-arbrofol.
- Mae ymagweddau eraill at ymchwil yn fwy priodol i esbonio perthnasoedd achosol o'r fath. Mae **gwerthuso ar sail damcaniaeth** a thechnegau megis dadansoddi cyfraniad yn fwyfwy poblogaidd ymysg gwerthuswyr. Gallai'r technegau hyn fod yn ddefnyddiol pan fydd hi'n anodd arbrofi neu'n amhosibl priodoli eich polisi neu raglen unigol i unrhyw ganlyniad unigol clir.
- Nid yw'n ymwneud â ph'un a yw'ch ymyriad wedi gweithio ai peidio, ond p'un a oedd yn cynnig gwerth am arian. Defnyddiwch dechnegau megis **dadansoddi cost a budd** i ddeall gwerth ariannol eich effaith.

## RHAN 2: Sut mae barnu ansawdd ymchwil?

Ffordd arall o'ch helpu i ddewis pa fath o ymchwil rydych chi ei angen yw gofyn cwestiwn gwahanol: pa ymchwil allwch chi ymddiried ynnddi? Beth sy'n dystiolaeth ddigon da i weddu i'ch anghenion? Efallai mai'r cyfnodolion academaidd gorau fel *Nature*, *BMJ* neu'r *Quarterly Journal of Economics* yw'r rhain. Ond beth am y nifer o werthusiadau mewnol a gynhelir gan elusennau, awdurdodau lleol a llywodraeth? Mae'n rhaid bod lle i'r rhain ar y bwrdd-tystiolaeth hefyd, onid oes?

Mae bod mewn cyfnodolyn ymchwil wedi'i adolygu gan gymheiriaid yn un ffordd o deimlo'n hyderus am yr ymchwil, ond nid yw'n sicrwydd. Mewn papur enwog, fe achosodd John Ioannidis o Brifysgol Stanford gynnwrf drwy ddadlau bod y rhan fwyaf o ganfyddiadau sydd wedi'u cyhoeddi fwy na thebyg yn anghywir. Archwiliodd y papurau oedd wedi'u dyfynnu fwyaf (1,000+ o ddyfyniadau) yn y cyfnodolion meddygol a ystyrir orau yn y byd – a ddeuai'n bennaf o *The Lancet*, *New England Journal of Medicine* a'r *Journal of the American Medical Association*.<sup>61</sup> O'r rhai hynny a brofwyd oedd yn honni eu bod yn effeithlon, canfuwyd bod 41 y cant naill ai'n anghywir, neu bod yr effaith yn llawer llai na'r hyn a awgrymwyd gan yr astudiaeth wreiddiol. Mae astudiaeth Ioannidis yn ddegawd oed, ond yn 2013 dywedodd wrth yr International Congress on Peer Review and Biomedical Publication nad oedd y broblem wedi mynd.<sup>62</sup>

### Ymchwil wedi'i hadolygu gan gymheiriaid: man cyfforddus y sawl sy'n gwneud penderfyniadau?

Mae'n rhaid i ni hefyd fod yn ymwybodol bod adolygu gan gymheiriaid – congllfaen cyfnodolion academaidd – yn bell o fod yn berffaith. Mae'n bosibl cael tueddiadau anymwybodol fel 'corllannu', lle mae ymddygiad adolygwyr yn cael ei ddylanwadu gan ymddygiad eu cymheiriaid. A gall y sefyllfa gyfan gael ei hystumio gan 'duedd cyhoeddiad': mae gan ganlyniadau cadarnhaol well cyfle i gael eu cyhoeddi,<sup>63</sup> tra bod data negyddol

yn cael ei roi ar y silff. Yn ôl arolwg gan Brifysgol Stanford, nad yw'r rhan fwyaf o'r 'astudiaethau nwl' ym maes cymdeithaseg yn gweld golau dydd: 20 y cant yn unig oedd wedi ymddangos mewn cyfnodolyn, ac roedd 65 y cant heb eu llunio'n bapurau hyd yn oed.<sup>64</sup>

Gallai hyn arwain at ganlyniadau difrifol ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac sy'n adolygu tystiolaeth. Os nad ydych chi'n gweld yr holl astudiaethau negyddol ar ymyriad newydd, gallech ddod i'r casgliad anghywir fod popeth yn dda. Ym maes iechyd clinigol, gallai cuddio canlyniadau treialon clinigol o gyffuriau megis Tamiflu ladd yn llythrennol.<sup>65</sup>

Er hynny, er gwaethaf y problemau hyn, i'r rhan fwyaf, adolygu gan gymheiriaid yw'r safon aur o hyd, ac yn ffordd o rwystro gwaith gwael.<sup>66</sup> Mae defnyddio cyfnodolyn a fu'n destun adolygiad cymheiriaid gan arbenigwyr eraill yn un ffordd i'ch helpu i fod rhywfaint yn fwy hyderus y gallwch ymddiried yn yr ymchwil. Gallai gymryd blynyddoedd o hyd cyn i ymchwil gael ei chyhoeddi a gall hynny fod yn rhy hir os oes angen i chi wneud penderfyniad cyflym, ond mae rhai rheolaethau ansawdd ynghlwm wrth adolygiad cymheiriaid i'ch helpu i deimlo'n hyderus.

Os nad fu'r ymchwil drwy gyfnodolyn wedi'i adolygu gan gymheiriaid, efallai bod sianeli eraill. Ar gyfer y rhai hynny sy'n gweithio mewn llywodraeth, argymhellir eich bod yn ymgynghori â chymdeithasau dysgedig (megis y Gymdeithas Frenhinol, y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol, yr Academi Brydeinig ac eraill) neu bwyllgorau gwyddonol neu arbenigol yn bileri call ar gyfer ansawdd.<sup>67</sup> Yn y sector elusennol, mae cyrff fel **Evaluation Support Scotland** wedi cynghori defnyddio rhwydweithiau cymheiriaid a siarad gyda sefydliadau eraill o'r un feddylfryd.<sup>68</sup>

## Cadarnhau diffiniad o ymchwil 'o safon uchel'

Gallai adolygiad gan gymheiriaid roi ychydig o gysur i ni. Ond beth ydych chi am ei wneud os ydych chi am gynnwys tystiolaeth ehangach nad yw wedi'i wirio gan arbenigwyr eraill? Sut ydych chi'n penderfynu a yw'n cyrraedd y safon?

Yn amlwg, byddai'n wirion hepgor 'llynyddiaeth lwyd' bwysig gan gyrff ymchwil megis Cymdeithas Frenhinol Caeredin, Cronfa'r Brenin neu'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid oherwydd nad oedd mewn cyfnodolyn wedi'i adolygu gan gymheiriaid. Neu hepgor y llif cyfoethog o werthusiadau llywodraeth neu elusennau nad ydynt byth yn gweld golau dydd drwy gael eu cyhoeddi gan sefydliadau academaidd. Ond mae'n teimlo'n dasg frawychus ar ôl darllen adroddiad damniol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar werthuso.<sup>69</sup> O edrych ar lywodraeth ganolog, bu iddo ganfod mai llai na hanner y gwerthusiadau a archwiliwyd a oedd wedi cynnig tystiolaeth gadarn ynghylch effaith polisi – gan olygu na ellid dibynnu ar y canfyddiadau.

Dechrau da wrth geisio asesu ansawdd yw ei ddiffinio. Un o'r problemau, fodd bynnag, yw bod ymadroddion fel 'ansawdd', 'safonau', 'cadernid' a 'chryfder' yn cael eu defnyddio drwy'r amser fel pe baent yn ymglyfnewidiol, heb ddiffinio'n glir beth ydynt. Mae hyn yn arwain at lawer o flerwch a chamddealltwriaeth.

Er enghraifft, mewn rhai canllawiau,<sup>70</sup> mae 'ansawdd' yr ymchwil yn golygu defnyddio mathau penodol o ddyluniad a dull – megis hap-dreialon wedi'u rheoli. Mae'r ffocws hwn ar ansawdd yn gyfeiriad bwriadol at rai o'r ymagweddu clinigol a meddygol ffurfiol ynghylch asesu ansawdd tystiolaeth, megis GRADE neu system Scientific Maryland Scale.<sup>71</sup>

Ond i eraill, gall ansawdd olygu arfer da o ran sut rydych chi'n cofnodi<sup>72</sup> eich ymchwil, neu eich gonestrwydd<sup>73</sup> o ran peidio â ffugio eich data – fel a welwyd yn achos sgandal academaidd y seicolegydd o Ddenmarc, Diederik Stapel, a fu'n ffugio data am flynyddoedd a'i gyhoeddi mewn o leiaf 30 o bapurau wedi'u hadolygu gan gymheiriaid.<sup>74</sup> Gan achosi

hyd yn oed mwy o ddryswch, mae rhai ymchwilwyr wedi barnu bod ansawdd yn rhywbeth sy'n ymwneud â defnyddioldeb – pa mor berthnasol oedd eich gwaith i bolisi ac arfer.<sup>75</sup> Er bod defnyddioldeb yn nod clodwiw, gallai ymddangos yn ddryslud i'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr rhoi ansawdd yn gyfystyr â defnyddioldeb.

Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o'r llenyddiaeth, canolbwyntia trafodaethau am ansawdd ymchwil ar ddyluniadau methodolegol. Mae dulliau penodol megis hap-dreialon wedi'u rheoli wedi ennill y safle hwn o barch fel ymchwil o 'ansawdd uchel'. Yn ôl atodiad i'r *Magenta Book*<sup>76</sup> gan Drysorlys Ei Mawrhydi – 'beibl' gwerthuso – mae dyluniadau arbrofol a dyluniadau lled-arbrofol yn dod yn agosach ati o ran gweld p'un a yw ymyriadau'n 'achosi' canlyniadau (gweler disgrifiad byr o'r dyluniadau hyn yn Atodiad 2).

## Magenta Book a Green Book Trysorlys Ei Mawrhydi

Wrth feddwl am beth yw tystiolaeth gref, mae'n amhosibl anwybyddu dwy gyfrol o ganllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi – *Magenta Book*<sup>77</sup> a'r *Green Book*.<sup>78</sup> Er bod y ddau'n ofnadwy o hir – 141 o dudalennau a 118 o dudalennau – maen nhw'n ddarllenadwy (popeth yn gymharol) ac maen nhw'n osgoi gormod o iaith dechnegol am economeg a gwerthuso. Maen nhw'n ddarllen hanfodol i unrhyw un sy'n llunio barn ar gryfder tystiolaeth.

Er bod y ddau o werth ar gyfer asesu tystiolaeth, mae'r *Magenta Book* yn hynod ddefnyddiol wrth gynllunio eich gwerthusiadau eich hun neu adolygu tystiolaeth a grëwyd gan eraill, lle mae'r *Green Book* yn canolbwyntio mwy ar y dyfodol ac efallai'n fwy perthnasol i swyddogion mewn llywodraeth ganolog – gan gynnig cymorth ar sut i adeiladu achos busnes da ar gyfer polisi newydd, er enghraifft.

Ysgrifennwyd y *Magenta Book* hefyd gyda chynulleidfaoedd ehangach mewn golwg na Whitehall ac felly mae'n arbennig o berthnasol i awdurdodau lleol, elusennau, darparwyr gwasanaethau cyhoeddus neu ymgynghorwyr a gwerthuswyr allanol sydd eisiau gweithio gyda'r llywodraeth.



## Y perygl o ddefnyddio arbrofion 'gwan' yn sail i bolisi – achos ffoneg synthetig

Mae'r polisi cyfredol ar gyfer dysgu plant i ddarllen yn seiliedig ar ffoneg synthetig, lle mae plant yn dysgu cyfateb synau i lythrennau a grwpiau o lythrennau. Gofynnwyd i dîm a gomisiynwyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau a dan arweiniad yr Athro Carole Torgerson, ym Mhrifysgol Efrog ar y pryd, adolygu'r dystiolaeth ar ffoneg synthetig.

Er bod rhywfaint o dystiolaeth addawol o'r Unol Daleithiau ac astudiaeth fechan yn Clackmannanshire yn yr Alban, yn dangos bod yr ymagwedd wedi gweithio, roedd y dystiolaeth yn gyfyngedig. Bu i'r adolygiad llywodraeth ganfod deuddeg treial arbrofol bach yn unig, gyda'r mwyaf o'r rheiny'n cynnwys 120 o blant.<sup>79</sup> Roeddynt yn annog pwyll wrth lunio polisi cenedlaethol. Awgrymodd Torgerson yn ei hadroddiad y dylai'r llywodraeth ei roi ar waith yn raddol, gan hapddewis yr ardaloedd cyntaf i fanteisio mewn treial.

Ond, anwybyddwyd y cyngor hwn yn ôl Torgerson, a daeth yn bolisi ar unwaith: "O ganlyniad, rydyn ni'n parhau i fod yn y niwl o ran p'un a yw ffoneg yn gweithio ai peidio fel y brif strategaeth addysgu i bob plentyn," dywedodd. "Mae rhywfaint o'r gwaith gwerthuso diweddar wedi dangos ei bod yn bosibl nad yw ffoneg synthetig yn cael yr effaith a obeithiwyd. Pe byddem wedi cynnal hap-dreial, byddem wedi gwybod cyn i'r polisi fod yn genedlaethol."<sup>80</sup>

Mae'r *Magenta Book* yn nodi bod cysylltiad uniongyrchol rhwng ansawdd a dyluniad ymchwil wrth feddwl am gwestiynau achosol.<sup>81</sup> Mae gwerthusiad effaith o ansawdd uchel yn ymwneud â mater priodoli – h.y. a oes modd priodoli mai eich ymyriad chi yw achos y canlyniadau? – ac i wneud hyn mae arnoch angen grŵp cymharu neu grŵp rheoli. Wedyn, gallwch fod yn fwy hyderus bod eich syniad da penodol wedi gwella gwasanaethau plant, wedi lleihau trosedd, neu wedi helpu ceiswyr gwaith i ddychwelyd i waith, er enghraifft.

Dylem nodi yn y fan hon bod dadleuon helaeth a thanllyd am yr hyn mae achosiaeth a phriodoli'n ei olygu.<sup>82</sup> Byddai llawer o ymchwilwyr yn dadlau'n erbyn rhoi safle breintiedig i ddyluniadau arbrol am eu bod yn anymarferol ac am nad ydynt bob amser yn dweud wrthyhch pam nad oes modd i rywbeth sy'n gweithio mewn un lle weithio mewn lleoedd eraill.<sup>83</sup>

Efallai nad ymchwilwyr arbenigol yn unig sy'n dadlau'n erbyn y diffiniad hwn o ansawdd. I unrhyw un y tu allan i faes gwerthuso, gallai ymddangos yn rhyfedd dweud bod ansawdd yn gydradd â dyluniadau arbrol. Mae'n gwbl bosibl cael ymchwil o ansawdd uchel mewn ymagweddau eraill, fel ethnograffeg, grwpiau ffocws neu arolygon ar-lein. Y mae hefyd yr un mor hawdd cael hap-dreialon wedi'u rheoli o ansawdd isel ag mewn unrhyw fath arall o ymchwil.

## Ymchwil 'ansoddol' o ansawdd uchel

Mae nifer wedi canu clodydd ymchwil 'ansoddol'<sup>84</sup> o ansawdd uchel ar gyfer llunwyr polisi (gweler tudalen 19 ar ddefnydd Cyngor Dinas Sunderland ar ethnograffeg). Dywed yr arbenigwr gwerthuso profiadol yn NatCen, sefydliad ymchwil cymdeithasol annibynnol, mai 'gwyddor gymdeithasol, drylwyr' yw'r dystiolaeth fwyaf perswadiol. Mae'n dadlau na ddylem freintio tystiolaeth feintiol dros dystiolaeth ansoddol, nac i'r gwrthwyneb chwaith. Gall tystiolaeth ansoddol fod yr un mor wyddonol gredadwy â thystiolaeth feintiol.<sup>85</sup> Ond yr hyn y dylem ei wneud yw:

*"...breintio tystiolaeth sy'n cynnwys casglu a dadansoddi data, drwy ddefnyddio methodoleg systematig, ddiffiniedig y mae modd ei hailadrodd, gan gynhyrchu data clir, profi cwestiynau gwerthuso sydd wedi'u diffinio ymlaen llaw, a sicrhau bod canlyniadau ar gael yn gyhoeddus."*


(Evaluating service transformation, blog NatCen, 19 Tachwedd 2014).

## Defnyddio haenau uchaf, hierarchaeth a safonau tystiolaeth

Ffordd arall o ystyried pwnc ansawdd yw defnyddio safonau ffurfiol o dystiolaeth – yn arbennig wrth edrych ar gwestiynau am 'beth sy'n gweithio' mewn polisi ac arfer cymdeithasol.

Gallai'r rhain fod ar ffurf hierarchaeth, lle mae dyluniadau ymchwil cryfach megis hap-dreialon wedi'u rheoli ac adolygiadau systematig ar y brig ar gyfer cwestiynau 'achosol' – a dulliau eraill, megis astudiaethau achos, ar y gwaelod.<sup>86</sup>

**Ffigur C2: Dwy ddelwedd o hierarchaeth tystiolaeth wedi'u symleiddio, yn seiliedig ar ddyfyniad yr astudiaeth**



Ffynhonnell: Bagshaw a Bellomo 2008, t.2.

Ffynhonnell: Petticrew a Roberts 2003, t.527

Caiff fersiynau gwahanol o hierarchaeth tystiolaeth eu defnyddio gan nifer o grwpiau gwerthuso ymchwil a chyrrff cymeradwyo o amgylch y byd, ac maent yn hynod gyffredin ym maes gofal iechyd. Mae'r safonau tystiolaeth hyn hefyd wedi bod yn tyfu ym maes polisi cymdeithasol y DU. Mae'r cyrrff a fu'n eu defnyddio yn cynnwys Public Health England,<sup>87</sup> Centre for Social Action – Nesta/Swyddfa'r Cabinet,<sup>88</sup> a Project Oracle yn Llundain,<sup>89</sup> sef prosiect i leihau troseddau ieuenctid.

### Ffigur C3: Safonau Tystiolaeth Nesta



Datblygodd Nesta ei fframwaith Safonau Tystiolaeth yn 2012 i asesu ansawdd y dystiolaeth ar effaith y mentrau cymdeithasol y buddsoddom ynddynt. Mae buddsoddi mewn effaith yn fusnes mawr ac mae wedi cael cefnogaeth sylweddol gan lywodraeth y DU. Ond ar gyfer cronfa buddsoddi Nesta, roedd y pryder yn ymwneud â sut y gallem fod yn sicr bod yr arloesiadau newydd wir yn cael effaith gadarnhaol. A oedd hi'n bosibl eu bod yn gwneud niwed hyd yn oed? Roedd angen tystiolaeth gref i ddangos p'un a oedd cynnydd gwirioneddol yn cael ei wneud gyda'r buddsoddiadau.

Mae pum lefel o dystiolaeth yn fframwaith Nesta.<sup>90</sup> Mae'r rhain yn dechrau o'r lefel sylfaenol (lefel 1) lle gallwch ddisgrifio'r hyn a wnewch a pham ei fod yn bwysig, mewn modd rhesymegol, clir a pherswadiol. Rydych wedyn yn symud fyny'r raddfa tuag at gasglu data arferol (lefel 2), ac wedyn ymlaen i lefelau uwch lle rydych chi'n defnyddio grwpiau cymharu (lefel 3), cyn creu tystiolaeth o ailadrodd a chynyddu maint (lefelau 4 a 5). Dylai lefel y dystiolaeth sydd ei hangen arnoch fod yn briodol ar gyfer ble'r ydych chi o ran datblygu polisi neu ymyriad. Ar gyfer Nesta, bu'n hynod ddefnyddiol i'r mentrau a ariannwn fynegi sut mae eu cynnyrch neu wasanaeth yn arwain at newid cymdeithasol cadarnhaol.<sup>91</sup>

Mae beirniaid yr hierarchaethau hyn yn dweud y gallant fod yn gyfyngiad sy'n rhy anhyblyg. Mae angen i benderfyniadau am ansawdd newid yn ôl y cyd-destun ac ni ddylai fod un maint yn addas i bawb. Yn ddiddorol, mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Gofal ac Iechyd (NICE) – un o ganolfannau What Works llywodraeth y DU (gweler tudalen 39) – bellach wedi gollwng ei hierarchaeth o dystiolaeth. Bu eu cyn-gadeirydd, Michael Rawlins, yn agored feirniadol o ddilyn hierarchaethau tystiolaeth yn slafaid.<sup>92</sup> Roedd yn ffafrio ffordd fwy craff o benderfynu beth sy'n briodol, yn hytrach na bod hap-dreialon wedi'u rheoli ac adolygiadau systematig bob amser yn drech na'r gweddill.<sup>93</sup>

Waeth beth fo rhinweddau'r beirniadaethau hyn,<sup>94</sup> o leiaf mae'r hierarchaethau, y fframweithiau a'r egwyddorion hyn yn cynnig strwythur i wirio honiadau'r dystiolaeth. Mae model Nesta wedi ei roi ar waith a'i brofi. Maen nhw'n cynnig strwythur cymharol hawdd i'w deall ac annhechnegol ar gyfer 'y daith dystiolaeth' y mae angen i nifer o sefydliadau ei dilyn; o elfennau sylfaenol 'damcaniaeth newid' i astudiaethau ailadrodd lluosog. Mae safonau tystiolaeth yn cynnig ffordd i asesu cryfder honiadau o effeithlonrwydd, ac o osgoi meddwl bod pob darn o dystiolaeth yn gyfartal.

Mae'r safonau hyn hefyd yn gymesur ac yn ystyried ymyriadau cam cynnar. Nid oes yn rhaid i brosiect newydd ddangos ei effaith ar unwaith – na chomisiynu gwerthusiad drud o'r diwrnod cyntaf. Mae ar syniadau newydd angen amser i dyfu. Ond mae cyrraedd lefelau uwch o dystiolaeth (lefelau 4 a 5) yn arwain at ofyn cwestiwn am y ffordd rydych chi'n barnu cryfder y corff o dystiolaeth, nid astudiaeth unigol yn unig – rhywbeth y byddwn yn edrych arno nesaf gydag adolygiadau systematig.

## Osgoi dethol drwy ddefnyddio adolygiadau systematig

Mae'n bwysig i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau feddwl am ansawdd 'sylfaen' y dystiolaeth – nid darnau unigol o dystiolaeth, ond casgliadau o ymchwil wedi'u cyfuno.

Mae llawer o'r farn ar ansawdd sydd wedi'i nodi uchod wedi canolbwyntio ar astudiaethau unigol mewn 'ymchwil gynradd' – hynny yw, ymchwil wreiddiol megis arbrofion, arolygon ac ati. Mae'n rhaid i ni hefyd feddwl am 'ymchwil eilaidd', ac am grynhoi a chasglu ymchwil bresennol ynghyd – tasg sy'n debygol o fod yn dasg ddesg. Rydyn ni'n llawer mwy tebygol o ddod o hyd i arweinydd elusen neu swyddog llywodraeth yn ymgymryd â'r math hwn o waith eilaidd.

Perygl cyffredin yw cynnal 'adolygiad llenyddiaeth'. Mae'r rhain yn hynod amheus. Fel y dywedodd Ben Goldacre, maen nhw'n annog temtasiwn i ddethol – yn ymwybodol neu'n anymwybodol – eich hoff rannau o dystiolaeth er mwyn cyd-fynd â'ch dewis gasgliadau:

*"Yn hytrach na stelcian drwy'r llenyddiaeth ymchwil, gan fynd ati'n ymwybodol neu'n anymwybodol i ddethol papurau yma ac acw sy'n cefnogi [ein] credoau sy'n bodoli eisoes, [rydym] yn defnyddio agwedd wyddonol systematig ar gyfer y broses benodol o edrych ar dystiolaeth wyddonol, gan sicrhau bod [ein] tystiolaeth mor gyflawn â phosibl ac mor gynrychioliadol â phosibl o'r holl dystiolaeth a wnaed erioed."*

Ben Goldacre (2012) *Bad Pharma: How Drug Companies Mislead Doctors and Harm Patients*, (London: Fourth Estate).

Rydym wedi gweld yn yr adran flaenorol ar dueddiadau gwybyddol y gallwn syrthio'n anymwybodol i'r fagl o edrych am dystiolaeth sy'n cyd-fynd â'n credoau. Felly mae angen inni fod yn ofalus iawn ein bod yn casglu'r holl ymchwil sydd ar gael, hyd yn oed yr ymchwil sydd â ffeithiau anghyfleus.

Un ffordd o osgoi'r arfer hon o ddethol yw defnyddio'r hyn a alwn yn adolygiadau systematig.<sup>95</sup> Nod y dulliau hyn yw bod yn drwyadl, a chanfod gymaint o ymchwil sy'n berthnasol i'ch cwestiwn ag sy'n bosibl. Maen nhw'n defnyddio dulliau clir i nodi beth y gellir ei ddweud yn ddibynadwy ar sail yr astudiaethau hyn. Gall yr adolygiadau hyn sgrinio astudiaethau am ansawdd – ar sail dyluniad a dulliau'r ymchwil.



Mae dulliau systematig hefyd o werth am eu bod yn glir ynglŷn â'r ffordd y gwnaethant chwilio am ymchwil – felly, o ran egwyddor o leiaf,<sup>96</sup> gallai eraill efelychu'r adolygiad systematig, sy'n wahanol i'r 'stelcian' mae Ben Goldacre yn ei ddisgrifio uchod.

## Nodweddion adolygiad systematig

- Mae'n cynnwys set o amcanion wedi'u nodi'n glir gyda meini prawf cymhwysedd wedi'u diffinio ymlaen llaw ar gyfer astudiaethau;
- Mae'n cynnwys methodoleg glir, y gellir ei hatgynhyrchu;
- Mae'n defnyddio dull chwilio systematig sy'n ceisio nodi'r holl astudiaethau sy'n cyrraedd y meini prawf cymhwysedd;
- Mae'n cynnwys asesiad ffurfiol ar ddilysrwydd canfyddiadau'r astudiaethau sydd wedi'u cynnwys;
- Mae'n cynhyrchu cyflwyniad, a chyfosodiad, systematig o nodweddion a chanfyddiadau'r astudiaethau sydd wedi'u cynnwys.

Ffynhonnell: Trysorlys Ei Mawrhydi (2011) *The Magenta Book; Guidance for Evaluation*.

## Meta-ddadansoddiad

Yn aml, mae meta-ddadansoddiad yn rhan bwysig o adolygiadau systematig ac mae fel arfer yn cynnwys dwyn swm mawr o ganfyddiadau ymchwil ynghyd – ond gan ddefnyddio dadansoddiad ystadegol. Yn aml, mae'n golygu creu cronfa o feintiau cyfartalog yr effaith a amcangyfrifir ym mhob astudiaeth ymchwil unigol.

Mae'n debyg fod meta-ddadansoddiad yn fwyaf cyfarwydd am gyfuno canlyniadau hap-dreialon wedi'u rheoli, ond mae hefyd yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin ar ddata nad yw wedi'i ddewis ar hap – o astudiaethau cynradd sy'n defnyddio rheoli achos, i ddyluniadau trawstoriadol a charfan (gweler Tabl C1 ar dudalen 22).

## Gwahaniaethu rhwng meta-ddadansoddi, meta-werthuso ac adolygiadau systematig

Mae gwahaniaeth pwysig rhwng adolygiadau systematig a meta-ddadansoddi, ac ni ddylid cymysgu rhyngddynt. Mae adolygiad systematig yn defnyddio dulliau systematig ar gyfer adolygu llenyddiaeth. Gellid ei hystyried yn broses 'feta lefel' (ynghylch neu du hwnt) gan mai ymchwil ar ymchwil ydyw. Felly gellid defnyddio'r term 'meta-ddadansoddi' i ddisgrifio'r holl adolygiadau systematig, ond yn ymarferol caiff y term ei ddefnyddio ar gyfer meta-ddadansoddi ystadegol yn unig, lle caiff ystadegau eu defnyddio i gyfosod y data rhifiadol o astudiaethau gwahanol.

Hefyd, mae'r term 'meta-werthusio' (Scriven 1969) a all olygu 'gwerthuso gwerthusiadau', a gall gynnwys cyfosod astudiaethau gwerthuso, ond mae ganddo ystyron ehangach (Scriven 1969, Gough et al. 2012b).<sup>97</sup> I gael disgrifiad hirach o 'feta-werthuso' a sut mae'n wahanol i fathau eraill o adolygiadau, gweler y *Magenta Book*.

## Adolygiadau brys

Ond gall adolygiadau systematig a meta-ddadansoddi gymryd amser, ac nid yw hyn yn dda pan fo gofyn gwneud penderfyniadau ar frys. Mae'n debyg na allwch aros am chwe mis i gwblhau adolygiad mewn pryd ar gyfer araith fawr yfory, dyddiad cau gwneud cais am gyllid, neu femo i weinidog ar bolisi newydd. Fodd bynnag, mae nifer o'r adolygiadau systematig hyn 'ar y silff' eisoes, felly nid oes angen i chi ddechrau o'r dechrau. Maen nhw ar gael i bawb mewn llyfrgelloedd ar-lein megis y rhai a guradwyd gan Cochrane and Campbell Collaborations, sy'n cael eu trafod yn Adran D ar ble i ddod o hyd i dystiolaeth.

Er hynny, efallai y teimlwch yn rhwystredig wrth fethu â dod o hyd i'r hyn y chwiliwch amdano ar y gwefannau hynny. Felly eich opsiwn gorau yw comisiynu fersiwn lai o'r adolygiad systematig,<sup>98</sup> fel asesiadau tystiolaeth cyflym. Nod asesiad tystiolaeth cyflym yw adolygu tystiolaeth ar frys, heb gyfaddawdu'n ormodol ar ansawdd (gweler Adran D i wybod mwy am asesiadau tystiolaeth cyflym).<sup>99</sup>

Fodd bynnag, gan fod y cwestiynau rydyn ni am eu hateb yn awr yn debygol iawn o godi eto mewn blynyddoedd i ddod, ar y lefel sefydliadol mae'n gwneud synnwyr comisiynu adolygiadau o ansawdd uchel a gaiff eu diweddarau'n rheolaidd ac sydd ar gael i bawb. Dyma'n union yw rôl y llyfrgelloedd ar-lein sy'n cael sylw yn Adran D.

Noder, fodd bynnag, nad yw ffyrdd mwy ffurfiol o ddwyn ymchwil ynghyd bob amser yn gyfystyr ag ansawdd. Mae barnu ansawdd eich adolygiad tystiolaeth yn dal i fod yn anodd. Mewn gwirionedd, nid yw ansawdd eich cyfodiad damaid yn well nag ansawdd yr astudiaethau y mae'n seiliedig arnynt.

## Pwysigrwydd ailadrodd a chadarnhau

Mae pethau eraill sydd angen eu hystyried wrth asesu ansawdd crynodeb ymchwil. Er enghraifft, faint o astudiaethau sydd angen eu cynnwys er mwyn i chi fod yn fodlon bod corff cryf o dystiolaeth yn bodoli? Efallai mai ychydig o astudiaethau yn unig os ydyn nhw'n dda iawn? Neu ddwsinau efallai, neu gannoedd? Mae Gwiriad Tystiolaeth diweddar gan yr Adran Addysg<sup>100</sup> yn crybwyll 12 o adroddiadau Ofsted ar ysgolion cynradd sy'n awgrymu bod perfformiad cryf yn gysylltiedig ag addysgu ffoneg. Ond mae tua 16,000 o ysgolion cynradd a ariennir gan y wladwriaeth yn Lloegr, felly nid yw 12 yn ymddangos yn llawer. Ac mae hynny hefyd yn osgoi'r cwestiwn difrifol arall o ran p'un a allwn ddweud mewn gwirionedd a yw arolygiadau Ofsted yn cyfrif fel tystiolaeth gref o effaith.

Y gwirionedd yw nad oes rhif hud o ran nifer o astudiaethau. Ac eto, ni allwn anwybyddu'r ffaith fod maint corff y dystiolaeth yn bwysig: mae cryfder mewn niferoedd, ac mae'n rhaid wrth ailadrodd a chadarnhau. Mae hyd yn oed angen i astudiaethau sydd wedi'u canmol droeon gael eu hailadrodd drosodd a thro. Fe wnaeth Amgen, cwmni cyffuriau o Galiffornia, geisio efelychu 53 o astudiaethau canser nodedig. Chwech yn unig (11 y cant) o'r astudiaethau pwysig hyn a efelychwyd yn y gwaith, a gyhoeddwyd yn Nature.<sup>101</sup> Mae hyn yn destun pryder mawr gan fod yr astudiaethau wedi dylanwadu ar gwmnïau cyffuriau a thriniaethau canser yn fyd-eang.

## 'Adolygu adolygiadau' – sut i farnu cyrff o dystiolaeth o ansawdd da

Yn sicr, dylem fod yn wyladwrus o astudiaethau unigol – am gyffuriau rhyfeddol newydd ar gyfer Alzheimer's sy'n llenwi tudalen flaen y *Daily Mail*, er enghraifft – nad ydynt yn cael eu hefelychu byth.<sup>102</sup> Ond nid maint y dystiolaeth yw'r unig beth i'w ystyried. Mae How to Note ar farnu cryfder tystiolaeth a gynhyrchwyd gan DFID yn rhestru pedwar peth i'w ystyried wrth wirio cyrff o dystiolaeth:

1. Ansawdd (technegol) yr astudiaethau sy'n rhan o'r corff o dystiolaeth (neu i ba raddau'r aethpwyd i'r afael â'r perygl o duedd);
2. Maint y corff o dystiolaeth;
3. Cyd-destun y dystiolaeth;
4. Cysondeb y canfyddiadau a gynhyrchwyd gan astudiaethau sy'n rhan o'r corff o dystiolaeth.

Ffynhonnell: DFID (2014) *How to Note: Assessing the Strength of Evidence*

Mae barnu'r holl feini prawf hyn bob amser am fod yn oddrychol – ac yn berthnasol i gyd-destun cwestiwn y polisi. Mae'n anodd iawn rhoi cyngor cyffredinol ar y corff iawn o dystiolaeth ar gyfer unrhyw bolisi. Ymagwedd ddiddorol arall yw dwyn casgliadau o adolygiadau systematig ynghyd yn unig, a pheidio â rhidyllu drwy astudiaethau unigol yn unig – hynny yw, 'adolygiad o adolygiadau'. Wrth gwrs, efallai mai pan fydd adolygiadau systematig yn bodoli'n barod yn unig y bydd hyn yn gweithio – ac mewn rhai sectorau, ychydig o'r rhain sydd ar gael. Mae model da i'w gael gan y Sefydliad Gwaddol Addysgol – elusen annibynnol a 'What Works Centre' a ariennir gan yr Adran Addysg ac Ymddiriedolaeth Sutton, a drafodir yn Adran D.

Mae rhestr o ganllawiau manwl eraill ar ansawdd ymchwil i'w gweld yn Atodiad 3.

### Negeseuon allweddol o Adran C Rhan 2

- I ddod o hyd i dystiolaeth y gallwch ymddiried ynnddi **edrychwch am ymchwil sydd wedi'i hadolygu gan gymheiriaid**. Ond noder nad yw adolygu gan gymheiriaid yn berffaith o bell ffordd. Gallai fod yn destun tueddiadau anymwybodol fel 'corlannu', neu duedd cyhoeddi tuag at ganlyniadau cadarnhaol, neu dwyll academaidd hyd yn oed.
- Wrth edrych ar gwestiynau ynghylch effaith a 'beth sy'n gweithio', defnyddiwch y **fframweithiau a safonau tystiolaeth ffurfiol** megis y rhai a ddefnyddir gan Nesta, Project Oracle ac eraill.
- Nid yw un astudiaeth byth yn ddigon ym maes polisi cymdeithasol. **Dylech osgoi gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar astudiaethau unigol, ac edrych am efelychiadau amrywiol**. Mae cryfder mewn niferoedd, ac mae'n rhaid wrth ailadrodd a chadarnhau. Mae hyd yn oed angen i astudiaethau sydd wedi'u canmol droeon gael eu hailadrodd drosodd a thro.
- Peidiwch â gwneud 'adolygiad llenyddiaeth' o ymchwil, gan ei fod yn annog dethol tystiolaeth – yn ymwybodol neu'n anymwybodol. **Defnyddiwch adolygiadau systematig**, sydd â'r nod o fod yn drylwyr ac a all sgrinio ansawdd – fel arfer ar sail dyluniad a dulliau'r ymchwil.
- Os nad oes gennych amser i wneud adolygiad systematig, neu'n methu dod o hyd i un wedi'i gwblhau sy'n ateb eich cwestiwn, ewch ati i gomisiynu **asesiad tystiolaeth cyflym**.

# Adran D

## Ble dylech chi edrych am dystiolaeth?

Mae'r adran hon yn cynnig cyngor ac adnoddau i'ch helpu i ddod o hyd i'r dystiolaeth gywir i gefnogi eich achos.

The screenshot shows a Guardian article from October 24, 2013. The headline is "Greg Hunt uses Wikipedia research to dismiss climate change-bushfires link". The sub-headline reads: "Environment minister warns against 'politicising the science', saying bushfires are simply part of 'the Australian experience'". The author is Helen Davidson (@heldavidson). The article includes a photo of Greg Hunt speaking at a podium. A hashtag #GregHuntResearch is visible on the right side of the article. The article's share statistics show 6,500 shares and 322 comments.

Roedd yn hynod o onest i gyn Weinidog yr Amgylchedd yn Awstralia, Greg Hunt, gyfaddef ei fod wedi cael ei dystiolaeth o bori ar y we. "Edrychais ar beth oedd gan Wikipedia i'w ddweud," oedd ei ddatl ar BBC World Service pan ofynwyd iddo am safbwyntiau ei lywodraeth ar danau llwyni. Aeth sylwadau Mr Hunt dros y byd. Cafodd ei wawdio ar Twitter, gyda'i ddatganiad yn arwain at greu'r hashnod #GregHuntResearch. I atgyfnerthu'r pwynt, gwnaeth pobl ddrygonus Wikipedia ddiweddarau ei dudalen Wikipedia bersonol gan gynnwys nodyn: "was quoted as saying he uses Wikipedia for important policy research".

Byddech yn gobeithio y byddai ceidwaid polisi eraill yn edrych am ymchwil fwy cadarn na Wikipedia, ond nid yw'r gwleidydd o Awstralia ar ei ben ei hun. Dangosodd arolwg diweddar<sup>103</sup> gan Ymddiriedolaeth Carnegie UK fod y rhan fwyaf o lunwyr polisi yn cael eu tystiolaeth drwy'r rhyngwyd, papurau newydd a newyddion wedi'i ddarlledu.

Collwn gyfle fan hyn. Yn y man lleiaf, gallai Greg Hunt fod wedi chwilio ar beiriant chwilio hollbresennol **Google Scholar**. Mae amrywiaeth eang o adnoddau ymchwil dibynadwy ar-lein, ac mae nifer ohonynt am ddim ac yn hawdd i'w defnyddio. Bydd y bennod hon yn cyfeirio at ychydig yn unig y credwn y byddant yn ddefnyddiol i unrhyw lunwyr polisi, arweinwyr elusennau a gweithwyr proffesiynol rheng flaen.

Ffigur D1: Ecosystem Tystiolaeth y DU ar gyfer polisi cymdeithasol



### Canolfannau What Works y DU mewn polisi cymdeithasol (a pholisi economaidd lleol)

Mae lansio chwech o ganolfannau 'What Works' yn 2013 wedi trawsnewid tirwedd tystiolaeth ar gyfer polisi ac arfer cymdeithasol yn y DU.<sup>104</sup> Eu nod yw gwella'r ffordd mae llywodraeth a sefydliadau eraill yn creu, rhannu a defnyddio tystiolaeth o ansawdd ac maen nhw'n cael eu goruchwyllo gan y What Works Network sy'n cael ei redeg o Swyddfa'r Cabinet, yn ogystal â llywodraethau'r Alban a Chymru. Nawr, mae naw canolfan – i'w gweld yn y 'selsigen' oren ganolig yn y ffigur uchod – yn rhoi sylw i feysydd fel trosedd, addysg a lles. Maen nhw'n cael eu hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, y Gronfa Loteri Fawr ac ystod eang o adrannau'r llywodraeth – gan gynnwys llywodraethau'r Alban a Chymru.

Ni allwn ddefnyddio'r esgus mwyach fod ymchwil yn rhy anodd i'w ganfod oherwydd ei fod yn cuddio y tu ôl i waliau talu academiaidd, ond mewn rhyw jargon annealladwy. P'un a ydych chi mewn elusen, llywodraeth ganolog neu awdurdod lleol, maen nhw'n cynnig cyfosiadau gweithredol a hygyrch o ymchwil a thystiolaeth. Blaenoriaeth benodol

yw sicrhau bod eu crynodebau ymchwil yn cael eu cyfleu mewn ffyrdd y gall y sawl sy'n gwneud penderfyniadau uniaethu â nhw – nid llunwyr polisi'n unig, ond comisiynwyr gwasanaethau neu ymarferwyr rheng flaen megis athrawon a swyddogion yr heddlu. Mae'n ddyddiau cynnar o hyd i rai o'r canolfannau What Works hyn, felly nid yw eu holl adnoddau wedi'u cwblhau eto. Ond, ar adeg cyhoeddi, mae'r canlynol yn adnoddau defnyddiol ac agored sy'n crynhoi'r ymchwil:

- **Pecyn Cymorth Dysgu ac Addysgu Ymddiriedolaeth Sutton / Sefydliad Gwaddol Addysgol a Phecyn Cymorth Blynyddoedd Cynnar y Sefydliad Gwaddol Addysgol** – tystiolaeth o'r effaith ar gyrhaeddiad disgyblion ar gyfer ymyriadau yn y dosbarth neu o amgylch yr ysgol, megis mentora neu gymryd rhan mewn chwaraeon.

Cynulleidfa: athrawon, rhieni, penaethiaid, gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar, llywodraethwyr, yn ogystal ag unrhyw elusen, awdurdod lleol neu lunwyr polisi.

- **Canolfan What Works ar gyfer Twf Economaidd Lleol** – adolygiadau systematig ar faterion polisi twf economaidd lleol megis mynediad at gyllid, prentisiaethau, band llydan, hyfforddiant cyflogaeth, parthau menter a chluant.

Cynulleidfa: unrhyw un sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau polisi sy'n targedu twf economaidd – yn enwedig awdurdodau lleol, Partneriaethau Cyflogaeth Lleol, llywodraeth, a busnesau.

- **Pecyn Cymorth y Ganolfan What Works ar gyfer Lleihau Trosedd yn y Coleg Plismona** – mae dros 300 o adolygiadau systematig, sy'n mynd i'r afael â 60 o ymyriadau lleihau trosedd gwahanol, wedi'u nodi ac yn cael eu hychwanegu at y teclyn ar-lein dros amser, megis CCTV, goleuadau stryd ac ymweliadau â charchar i ddigalonni pobl ifanc rhag troseddu.

Cynulleidfa: yr heddlu a gweithwyr proffesiynol lleihau trosedd, llunwyr polisi, comisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus, elusennau a grwpiau gwirfoddol sydd â diddordeb mewn rhaglenni ac ymyriadau lleihau trosedd.

The screenshot shows the 'What Works Crime Reduction Toolkit' website. The main heading is 'Crime Reduction Toolkit'. Below this, there is a table of interventions. The table has six columns: 'Intervention', 'Impact on crime', 'How it works', 'Where it works', 'How to do it', and 'What it costs'. Each row represents an intervention with corresponding icons and quality indicators. A sidebar on the left includes filters for 'Our effect scale', 'Our quality scale', and 'Impact on Crime'.

Intervention	Impact on crime	How it works	Where it works	How to do it	What it costs
	Effect	Mechanism	Moderator	Implementation	Economic cost
Alcohol ignition interlock	✓✓	⚙️	📍	❓	£
Alcohol tax and price policies	✓✓	⚙️	📍	❓	£
<b>NEW</b> Alternative education programmes	X✓	⚙️	📍	❓	£
CCTV	✓✓	⚙️	📍	❓	£
Cognitive Behavioural Therapy (CBT)	✓✓	⚙️	📍	❓	£



- **Canllaw a Llyfrgell Rhaglenni Ymyriad Cynnar, y Sefydliad Ymyriad Cynnar** – mae'n mynd i'r afael â thystiolaeth ar dros 50 o raglenni ymyriad cynnar. Mae'n ceisio annog datblygiad cadarnhaol ac yn ymdrin ag amrywiaeth o broblemau, gan gynnwys cam-drin ac esgeuluso, cam-drin sylweddau a phroblemau iechyd meddwl. Lluniwyd y canllaw i roi cyngor i weithwyr proffesiynol sy'n datblygu systemau a rhaglenni ymyriad cynnar.

**Cynulleidfa:** comisiynwyr gwasanaethau, llunwyr polisi ac ymarferwyr ar draws maes polisi cymdeithasol..

- **Adolygiadau tystiolaeth Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru** – mae Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru yn darparu dadansoddiad a chngor cyflym i weinidogion llywodraeth Cymru. Y mae hefyd yn ymgymryd â gwaith ar rai o'r prif heriau strategol sy'n wynebu llywodraeth Cymru, megis mynd i'r afael â thlodi. Mae ei wefan yn cynnwys dolenni i ddwsinau o grynodedau ymchwil sydd wedi'u cwblhau ac sy'n hygyrch i bawb gan gynnwys adolygiadau tystiolaeth cyflym, cyngor a dadansoddiad arbenigol gan y Sefydliad, yn amrywio o gynllunio trafniadaeth strategol i effaith dyled yng Nghymru.

**Cynulleidfa:** gweinidogion llywodraeth Cymru, eraill sydd â diddordeb mewn llunio polisi cymdeithasol yng Nghymru.

Cadwch lygaid am grynodedau ymchwil ar-lein yn y dyfodol gan ganolfannau eraill What Works:

- What Works in Tackling Poverty (dan arweiniad Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru – sydd hefyd yn cynnal Canolfan What Works Cymru).
- What Works Scotland Evidence Bank.
- What Works Centre for Wellbeing.
- Centre for Ageing Better.

## Gwaith NICE mewn iechyd a gofal cymdeithasol

Arweinydd yng nghanolfannau What Works y DU yw'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Mae'r holl arweiniad a gynigir gan NICE yn seiliedig ar y dystiolaeth ymchwil orau sydd ar gael – yn ogystal â chyfraniad gan gleifion drwy gyrff tebyg i 'reithgor dinasyddion', a chlinigwyr.<sup>105</sup> Mae NICE hefyd yn cynnig dau adnodd defnyddiol arall.

- **NHS Evidence:** cronfa ddata ddefnyddiol sy'n rhoi canllawiau ac ymchwil dealladwy parod i'r feddygfa neu'r ward ysbyty. Mae'n adnodd rhyfeddol sy'n amrywio o gronfeydd data ar feddyginiaethau sy'n agored ac am ddim i ddolenni (ar gyfer gweithwyr y GIG yn unig) i'r prif gyfnodolion a chronfeydd data llyfryddol.
- **UK DUETS:** talfyriad ydyw o **Database of Uncertainties about the Effects of Treatments**, ac mae'n tynnu sylw at gwestiwn difrifol sy'n dal i fodoli ynghylch p'un a yw triniaethau'n gweithio ai peidio. Mae'n seiliedig ar beth mae cleifion a chlinigwyr yn ei ddweud, yn ogystal â'r ymchwil gynradd a'r adolygiadau systematig gorau sydd ar gael. Mae'r gronfa ddata'n agored am fylchau yn ein dealltwriaeth ac yn cydnabod bod anwybyddu ansicrwydd o ran triniaethau yn rhoi cleifion mewn perygl yn y DU.



## Cronfeydd ymchwil eraill ar gyfer polisi ac arfer cymdeithasol

Nid yw'r rhan fwyaf o gronfeydd mor addas i ymarferwyr ag NHS Evidence, ac maent wedi'u targedu mwy at ymchwilwyr arbenigol. Ond gall rhai o'r cronfeydd data eraill hyn fod yn rhyfeddol o hawdd i'w defnyddio:

- Mae gan yr Evidence for Policy and Practice Information Co-ordinating Centre yng Ngholeg Prifysgol Llundain amrywiaeth o gronfeydd data sydd ar gael yn rhad ac am ddim ar-lein, megis y Database of Education Research, gyda 1,200 o gofnodion o adolygiadau systematig. Gallwch chwilio ei holl adolygiadau systematig yn ôl gair allweddol.
- Hefyd, mae cronfeydd data gwyddonol mawr o gyfnodolion, fel PubMed ar gyfer astudiaethau mewn iechedd cyhoeddus neu JSTOR ar gyfer astudiaethau mewn economeg, cymdeithaseg a pholisi cyhoeddus – er bod hwn wedi'i dargedu at academyddion yn bennaf. Sefydliad nid-er-elw yw JSTOR, ond y mae'n codi ffi i dalu ei gostau a chaiff ei ddefnyddio'n bennaf mewn prifysgolion, llyfrgelloedd cyhoeddus ac ysgolion. Os ydych chi'n gweithio yn llywodraeth ganolog y DU neu awdurdod lleol, efallai y bydd eich adran yn tanysgrifio a gall defnyddwyr sy'n 'cerdded i mewn' fanteisio ar dros 2,000 o gyfnodolion academaidd.
- Os oes gennych chi gysylltiadau agos gyda'ch hen brifysgol yn y DU, cofiwch fod gan gyn-fyfyrwyr yn aml fynediad o bell at gronfeydd data llyfrgelloedd eu cyn brifysgol, megis adnodd Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Rhydychen.

## Adolygiadau systematig eraill y tu hwnt i ganolfannau What Works

Yn yr adran flaenorol, argymhellwyd defnyddio adolygiadau systematig, yn hytrach nag astudiaethau unigol yn unig. Er mai drud yw eu comisiynu o'r cychwyn cyntaf, mae llawer o adolygiadau wedi'u cwblhau sy'n gymharol hygyrch.

### Polisi cymdeithasol cyffredinol

Mae gan ganolfan **Evidence for Policy and Practice Information** yng Ngholeg Prifysgol Llundain y cyfeiriwyd ati uchod 'lyfrgell dystiolaeth' o adolygiadau systematig y gall unrhyw un fanteisio arnynt, er nad yw'r ystod yn gynhwysfawr gan ei bod yn cynnwys yr astudiaethau y bu'r Ganolfan yn rhan ohonynt yn unig.

Gwefan fwy cynhwysfawr ar gyfer rhestrau o adolygiadau systematig ym maes polisi cymdeithasol yw'r **Campbell Collaboration Library**. Mae'n cwmpasu addysg, trosedd a chyfiawnder, lles cymdeithasol a datblygiad rhyngwladol. A hithau wedi'i rheoli gan Ysgrifenyddiaeth, mae'r Llyfrgell wedi'i rhannu'n Grwpiau Cydlynau sy'n rheoli proses adolygu cymheiriaid drylwyr ar gyfer adolygiadau systematig o ansawdd uchel. Gall yr adolygiadau fod ar destunau hynod bynciol sy'n boblogaidd ymysg rhai sy'n gwneud penderfyniadau, megis ei adolygiadau o 'ymwybyddiaeth ofalgar' wrth leihau straen sydd wedi'i lawrlwytho 10,000 o weithiau.

## Addysg

Adnodd rhad ac am ddim arall ar wahân i Ganolfan What Works y Sefydliad Gwaddol Addysgol yw gwefan **Evidence for Impact** sy'n rhoi system sgorio tystiolaeth syml ar gyfer rhaglenni sy'n ymwneud ag ysgolion, ynghyd â chrynodebau tystiolaeth byr. Mae'n cynnwys cronfa ddata gynhwysfawr o raglenni sydd ar gael yn y DU, gan gynnwys manylion am eu heffeithiolrwydd a'u cost, ynghyd â dolenni i ddarparwyr ac arbenigwyr a all gynnig cefnogaeth bellach. Gellir chwilio'n hawdd yn y gronfa yn ôl cyfnod allweddol, maes pwnc a grŵp wedi'i dargedu, fel bod y canlyniadau wedi'u teilwra i anghenion penodol eich dosbarth neu ysgol.

## Gwasanaethau plant

Mae gan Uned Ymchwil Cymdeithasol Dartington siop un-stop ar gyfer comisiynwyr gwasanaethau plant o'r enw **Investing in Children**. Mae'n dwyn tystiolaeth ynghyd o ran 'beth sy'n gweithio' gyda chostau a manteision economaidd 100 o ymyriadau gwahanol sy'n cystadlu â'i gilydd ym maes gwasanaethau plant.

## Datblygu rhyngwladol

O ran datblygu rhyngwladol, mae cronfa ddata **3ie** yn mynd i'r afael ag astudiaethau cynradd ac adolygiadau systematig o effeithiolrwydd ymyriadau cymdeithasol ac economaidd mewn gwledydd incwm isel ac incwm canolig.

Yn hytrach na mynd drwy bob un o'r pyrth neu wefannau uchod, efallai yr ystyriwch fynd yn syth i Google Scholar. Fel awgrym, i ddod o hyd i adolygiadau systematig defnyddiwrch y termau chwilio 'subject' YN OGYSTAL Â 'systematic review' e.e. 'mindfulness' A 'systematic review'. Os ydych chi eisiau adolygiadau gan sefydliadau penodol gallwch ehangu'r llinyn chwilio i nodi hynny, e.e. 'mindfulness' A 'systematic review' A 'Campbell' neu sefydliad arall sy'n cynhyrchu adolygiadau.

## Siop un-stop yw'r stop olaf

Mae nifer o siopau un-stop sy'n crynhoi adnoddau tystiolaeth sy'n ymwneud â thestun penodol, ond y perygl yw y byddant yn disgyn i fagl **Portal Proliferation Syndrome**. Hynny yw, ni all cynhyrchwyr ymchwil wrthod temtasiwn sefydlu canolfan, porth, llwyfan neu fynedfa arall i geisio pecynnu'r wybodaeth oll mewn un man. Gallai cronfeydd data o gronfeydd data wneud dim ond drysu defnyddwyr.

Er hyn, mae creu cronfa o wybodaeth ar ffurf parod i'w defnyddio ar gyfer proffesiynau polisi cymdeithasol yn sicr yn nod da. Ac o'i wneud yn dda, gall dwyn cronfeydd data ynghyd mewn un lle helpu i leihau dryswch. Mae rhai adnoddau digidol da iawn i'w cael ar gyfer cyfod. Ymatebodd siop un-stop Social Policy and Practice ar gyfer ymchwil ym maes iechyd a pholisi cymdeithasol i'r swm mawr o adnoddau gwybodaeth drwy gydblethu pedair cronfa ddata ymchwil genedlaethol flaenorol sy'n berthnasol i bolisi: ChildData, AgeInfo, Planex a Social Care Online.

Mae Social Policy and Practice yn ddefnyddiol ar gyfer unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol neu waith cymdeithasol nad oes modd iddynt ddefnyddio llyfrgell prifysgol yn hawdd. Yn ogystal â helpu i gael mynediad at 600 o gyfnodolion o'r DU a chyfnodolion rhyngwladol, mae hefyd yn cynnwys 'llynyddiaeth lwyd' adroddiadau a chanllawiau llywodraeth neu felinau trafod a fydd yn helpu'r rhai hynny sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol. Mae canllaw cryno i'r cronfeydd data ymchwil hyn yn y DU i'w gweld ar wefan y Gynhrai ar gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol.<sup>106</sup>

## Crynodebau bach, byr, a bachog

Gall rhai o adroddiadau Campbell Collaboration fod hyd at 100 tudalen o hyd, ond bydd angen rhywbeth byrrach ar rywun sy'n gwneud penderfyniadau ac sy'n brin o amser. Gallai crynodebau ddweud tipyn wrthyf, ac mae digonedd o **gyfnodolion academaidd** sy'n rhoi crynodebau – os nad erthyglau cyfan – am ddim. Mae adolygiadau Campbell yn cynnwys 'crynodeb iaith glir', sy'n cael eu gwneud yn fwy hygyrch ar hyn o bryd.

Mae naratif darllenadwy ac anacademaidd eraill sy'n crynhoi adolygiadau o waith ymchwil, wedi'u hysgrifennu mewn ffordd sy'n addas i ymarferwyr (h.y. gan beidio â defnyddio jargon academaidd oni bai ei fod yn hanfodol), fel **crynodebau tystiolaeth**<sup>107</sup> Llywodraeth yr Alban 2011 ar yr hyn sy'n gweithio i atal pobl rhag ail-droseddu, ac wedyn **crynodeb o dystiolaeth**<sup>108</sup> Llywodraeth y DU 2013 ar yr un pwnc. Neu'r erthyglau pynciol gan academyddion ar wefan The Conversation, gan gynnwys adran **Hard Evidence**.

Mae **POSTNotes** seneddol yn grynodebau ymchwil PDF sydd hefyd yn fyr a hawdd eu deall, a gall unrhyw un eu gweld, nid Aelodau Seneddol yn unig. Er eu bod yn ymwneud â gwyddoniaeth a thechnoleg yn bennaf, mae ganddynt nifer gynyddol ym maes gwyddor gymdeithasol a pholisi cymdeithasol. Dylech danysgrifio i dderbyn **Evidence Briefings** rheolaidd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol; ac os oes gennych chi ddiddordeb ym maes polisi plant, mae Evidence Nuggets o'r What Works Centre for Children (bellach ar gau) yn dal i fod ar gael.<sup>109</sup>

## Gwasanaethau ymgynghori a desg gymorth – talu'r pris am dystiolaeth

Fodd bynnag, nid yw rhai siopau un-stop ar agor i bawb ac efallai y bydd angen tanygrifiad neu daliad. Ond os yw'r cynnyrch yn dda, onid yw'n werth buddsoddi? Efallai y bydd rhai ohonom yn ddigon ffodus i gael mynediad at lyfrgelloedd prifysgolion (a llyfrgellwyr da – arwyr di-glod byd tystiolaeth) er mwyn mynd y tu hwnt i waliau talu cyfnodolion ymchwil uchel eu parch. Ond i'r rhai ohonom na allwn wneud hynny (gan gynnwys awduron y canllaw hwn, er ein bod yn gweithio i elusen fawr yn y DU), a yw'n werth talu i rywun gasglu eich tystiolaeth?

Un enghraifft o ddarparwr sy'n codi ffi yw'r Idox Information Service. Mae wed bodoli ers 30 mlynedd bellach ac mae'n honni bod ganddo 200,000 o ddefnyddwyr. Yn ogystal â chael cronfa ddata o grynodebau, mae ymgynghorwyr wrth law i'ch helpu. Mae hyd yn oed ganddo wasanaeth llyfrgell hen ffasiwn – gallwch rentu llyfrau drwy'r post. Mae Idox yn honni mai nhw yw'r ffynhonnell fwyaf cyflawn a hygyrch o dystiolaeth ac ymchwil ar gyfer y sector cyhoeddus yn y DU, ond mae'n rhaid i chi dalu amdano.

Mae sefydliadau ymgynghoriaeth ymchwil eraill a all eich helpu i ddod o hyd i dystiolaeth – mae rhestr o'r rhain sydd hefyd yn aelodau o'r Gynghrair i'w gweld ar y wefan.

Un dull a allai fod yn ddefnyddiol yw asesiad tystiolaeth cyflym. Ei nod yw bod yn eithaf cynhwysfawr, ond yr anfantais yw nad yw'n drwyadl, gyda risg cysylltiedig o duedd.<sup>110</sup>

Mae'r tabl hwn gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg yn dangos beth gallech gael drwy gomisiynu asesiad tystiolaeth cyflym, neu fath arall o adolygiad cyflym megis astudiaeth gwmpasu:

Tabl D2:

Cynnyrch	Pam fyddwn i'n ei ddefnyddio?	Beth fydd yn ei roi i mi?	Faint o amser y bydd yn ei gymryd	Awgrym o hyd yr adroddiad
Adolygiad cyflym	Cael trosolwg cyflym o faes polisi neu arfer	Trosolwg o'r hyn a wyddom am bwnc penodol. Gall fod yn seiliedig ar lenyddiaeth ymchwil, polisi neu dystiolaeth arfer. Caiff y llenyddiaeth ei chanfod drwy chwilio'n gyfyngedig	1–2 fis	Adroddiad 10 tudalen
Adolygiad cwmpasu	Canfod p'un a oes digon o dystiolaeth i gynnal asesiad tystiolaeth cyflym neu adolygiad systematig llawn	Map o faint o dystiolaeth sydd ar gael am bwnc	1–2 fis	Adroddiad 10 tudalen
Adolygiad tystiolaeth cyflym	Cael cyfosodiad trylwyr o dystiolaeth i gyfarwyddo polisi neu arfer. Ateb cwestiynau am yr hyn sy'n effeithiol	Cyfosodiad cadarn o'r dystiolaeth, gyda negeseuon allweddol ac argymhellion. Caiff y llenyddiaeth ei chanfod drwy chwilio'n gynhwysfawr	3–5 mis	Adroddiad 15 tudalen
Adolygiad meta-ddadansoddol	Cyfuno canlyniadau cyfres o werthusiadau meintiol o ansawdd uchel	Amcangyfrif rhifiadol o effaith gyffredinol yr ymyriad a werthusir	3–5 mis	Adroddiad 15 tudalen
Adolygiad systematig llawn	Cael cyfosodiad tystiolaeth 'safon aur' o'r holl dystiolaeth sydd ar gael	Crynodeb cadarn iawn a systematig o'r dystiolaeth, gyda negeseuon allweddol ac argymhellion. Caiff llenyddiaeth ei chanfod drwy chwilio'n gynhwysfawr iawn	6–12 mis	Adroddiad 60 tudalen

Ffynhonnell: Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, *Investigating what works: through reviews*

Mae'n rhaid bod yn ofalus fan hyn. Mae cymeradwyo darparwyr masnachol fel Idox (neu'r peryg o'u henllibio os ydym yn feirniadol) yn diriogaeth anodd. Ond roeddem yn teimlo na allem osgoi crybwyll cyfunwyr tystiolaeth sy'n gofyn am ryw fath o ffi. A'r gwir amdani yw nad oes mynediad agored (hyd yma) i un o'r sianeli mwyaf ar gyfer ymchwil – cyfnodolion academiaidd – ac maent yn gofyn am ffi. Os ydym wedi methu unrhyw adnoddau cronfeydd data y credwch sy'n ddefnyddiol, **rhowch wybod i ni** er mwyn i ni allu eu hychwanegu at ein hadnoddau ar-lein.

## Cyngor arbenigol

Weithiau, ni fydd cronfeydd data goddefol yn ddigon. Efallai na fyddwn hyd yn oed yn siŵr o'n cwestiwn – nac felly pa ymchwil y dylem fod yn chwilio amdani. Dyma pryd gallai cael sgwrs gydag arbenigwr fod yn ddefnyddiol, felly da yw clywed am wasanaeth newydd sy'n cael ei ddatblygu yn yr Alban, **Evidence Bank**, a gaiff ei ddatblygu gan y Centre for Research on Families and Relationships. Yn ogystal â chynnig tystiolaeth, mae hefyd wedi peilota gwasanaeth cais arbennig. Datblygwyd y model mewn partneriaeth â sefydliadau a gwasanaethau yn y trydydd sector a'r sector cyhoeddus, ac mae'n cwmpasu plant, teuluoedd, perthnasau ac anabledd. Mae'r Evidence Bank yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd fel rhan o **What Works Scotland** a dylai fod ar-lein yn fuan.

Yn San Steffan a Whitehall, mae academyddion hefyd wedi dechau ar **Evidence Information Service**<sup>111</sup> ond megis dechrau mae hwn felly cadwch lygaid amdano pan fydd yn gwbl barod.

Os ydych chi mewn adran llywodraeth fawr yn San Steffan, yr Alban, Cymru neu Ogledd Iwerddon, rydych chi'n ddigon ffodus i gael dadansoddwyr, ymchwilwyr, ystadegwyr ac economegwyr mewnol i'w galw i'ch helpu i ganfod tystiolaeth a'i dehongli. Er enghraifft, mae'r **Government Social Research Service**.

Mae'r bennod hon wedi amlinellu amrywiaeth o adnoddau ymchwil hygyrch yn y DU ym maes polisi ac arfer cymdeithasol. Ond wedi ichi gasglu eich tystiolaeth, nid fyddwch eisiau iddi fod yn hel llwch. Mae angen i ni feddwl sut i'w chyfleu a gweithredu arni. Bydd y bennod nesaf yn canolbwyntio ar sut orau i wneud hynny.

### Negeseuon allweddol o Adran D

- Byddwch yn wiliadwrus o **chwiliadau hap a damwain ar-lein** – defnyddiwch ystorfeydd ymchwil dibynadwy.
- Manteisiwch ar y **crynodebau ymchwil gweithredol a hygyrch sydd ar gael am ddim**, megis y rhai sydd ar wefannau naw o ganolfannau What Works y DU, NHS Evidence, EPPI Centre a Campbell and Cochrane Collaborations.
- Darllenwch rai o'r **crynodebau bach am ddim** megis POSTNotes Senedd y DU neu Friffiau Tystiolaeth rheolaidd y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.
- Os na fedrwch ddod o hyd i'r hyn rydych chi'n chwilio amdano, dylech ystyried **comisiynu ymgynghoriaeth neu wasanaeth desg gymorth** i wneud crynodeb o ymchwil, megis asesiad tystiolaeth cyflym, adolygiad cwmpasu neu adolygiad systematig.
- Os ydych chi mewn adran llywodraeth neu awdurdod lleol, **defnyddiwch eich dadansoddwyr mewnol** i chwilio ar eich rhan.

# Adran E

## Sut dylech chi gyfleu eich canfyddiadau?

**Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar sut i gyfleu eich neges unwaith y bydd gennyh chi'r dystiolaeth rydych chi ei hangen.**

Nid oes llawer o bwynt casglu corff cryf o dystiolaeth os yw'n syrthio ar glustiau byddar. Yr holl fwriad yw ei drosglwyddo i arfer a newid agweddau, credoau ac ymddygiad.

Mae cyfathrebu llwyddiannus yn golygu rhoi eich hun yn wirioneddol yn esgidiau'r gynulleidfa, gyda nifer o ganllawiau defnyddio ymchwil swyddogol yn dweud yn ddelfrydol y dylai hyn ddechrau gyda'r broses casglu tystiolaeth ei hun.<sup>112</sup>

Y peth gorau fyddai osgoi lledaenu'n oddefol, gan wthio gwybodaeth drwy'r drws yn y gobaith y bydd rhywfaint ohono'n glynu. Yn hytrach, mae angen i chi ymgysylltu'n weithredol â'ch cynulleidfaoedd.

Er enghraifft, mae gan ganllaw ymchwil<sup>113</sup> y Cyngor Ymchwil Feddygol rywfaint o gyngor defnyddiol ar ddefnyddio ymchwil ac mae'n cynnwys canllawiau ar sail ymchwil wedi'i chyhoeddi (yn hytrach na barn arbenigol). Mae'n ystyried polisi cymdeithasol yn ogystal â meddygaeth draddodiadol, ac mae'n cynnwys astudiaethau achos mewn meysydd megis atal trosedd ac iechyd cyhoeddus.

### Chwe awgrym o ganllaw'r Cyngor Ymchwil Feddygol ar gael gwrandawriad i'ch tystiolaeth

1. **Dylech gynnwys rhanddeiliaid** yn y broses o ddewis cwestiwn a dyluniad yr ymchwil er mwyn sicrhau perthnasedd.
2. Dylech ddarparu tystiolaeth **mewn ffordd integredig a graddol**: cynnwys adolygiadau, nid astudiaethau unigol, a chrynodebau o sawl hyd amrywiol sy'n caniatáu sganio'n gyflym.
3. **Dylech ystyried y cyd-destun**, a nodi'r elfennau perthnasol i wneud penderfyniadau, megis manteision, niwed a chostau.
4. **Dylech wneud argymhellion mor benodol** â phosibl.
5. Defnyddiwch **ymagwedd amlweddol sy'n cynnwys amrywiaeth o elfennau rhyngweithiol** – yn hytrach na didactig – o gyfarfodydd addysgol, adborth, pwyntiau atgoffa a phrosesau consensws lleol.
6. Mae rhoi ar waith yn llwyddiannus yn dibynnu ar newid ymddygiad – a hynny'n aml ymysg amrywiaeth eang o bobl. Mae hyn yn galw am **ddealltwriaeth wyddonol o'r ymddygiadau** sydd angen newid, y ffactorau sy'n cynnal yr ymddygiad presennol, ffactorau sy'n rhwystro a hwyluso newid, a'r arbenigedd i ddatblygu strategaethau i gyflawni newid yn seiliedig ar y ddealltwriaeth hon. Mae'n bosibl y bydd angen gwaith ymchwil pellach i helpu gyda'r broses o weithredu, a dylai timau ymchwil gweithredu gynnwys gwyddonydd ymddygiadol.

Ffynhonnell: Cyngor Ymchwil Feddygol (2013) *Developing and evaluating complex interventions: new guidance*

Yn anffodus, fel mae canllaw'r Cyngor Ymchwil Feddygol yn ei nodi, mae sylfaen y dystiolaeth ar gyfer gweithredu'n effeithiol yn parhau i fod yn gyfyngedig. Mae digon o 'ganllawiau arfer da' a chyngor, ond nid yw'n ymddangos bod y rhan fwyaf ohono'n seiliedig ar dystiolaeth – dim ond yr hyn sy'n cael ei gyfrif fel barn arbenigol. Ac mae'n ymddangos bod y dystiolaeth sydd gennym yn anghyson â nifer o arferion presennol.

Er enghraifft, mae'r obsesiwn â chrynodebau byr ar gyfer llunwyr polisi yn seiliedig ar dystiolaeth sigledig. Mewn hap-dreial wedi'i reoli amlweddol gan yr International Initiative for Impact Evaluation (3ie) ac eraill,<sup>114</sup> archwiliwyd effeithiolrwydd briff polisi o ran dylanwadu ar gredoau darllenwyr a'u hannog i weithredu.

*"Mae'r canlyniadau'n drawiadol ac nid ydynt yn tawelu meddwl y rhai hynny sydd, yn ôl 3ie, yn teimlo bod briffiau polisi'n bwysig,"* meddai Cyfarwyddwr Gweithredol 3ie ar y pryd, Howard White.<sup>115</sup> Er enghraifft, canfu'r treial nad yw newid natur y briff – megis ei hyd neu gynnwys safbwyntiau barn awdurdodol – yn amherthnasol i newid credoau. Fodd bynnag, roedd 'negesydd' y briff – hynny yw, pwy sy'n ei gyflwyno – o bwys i b'un a fyddai unrhyw un yn gweithredu arno. Mae tystiolaeth sylweddol o faes seicoleg gymdeithasol ar y 'negesydd' a byddwn yn rhoi sylw i hyn isod gan ei bod yn rhoi ychydig o gyfeiriad defnyddiol ar gyfleu polisi'n well.

## Canllawiau ar ddefnyddio ymchwil

- **Research Uptake Guidance** – Yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol (y DU)
- **Communicating research for evidence-based policymaking: A practical guide for researchers in socio-economic sciences and humanities** – Y Comisiwn Ewropeaidd
- **Guide: Engaging with Policymakers** – National Coordinating Centre for Public Engagement (y DU)
- **Impact Toolkit** – Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (y DU)
- **Helping researchers become policy entrepreneurs: How to develop engagement strategies for evidence-based policymaking** – Overseas Development Institute (y DU)


## Gwnewch hi'n hawdd, yn ddeniadol, yn gymdeithasol ac yn amserol

Os ydych chi am annog newid mewn ymddygiad yn seiliedig ar ymchwil, dylech ei gwneud hi'n Hawdd, yn Ddeniadol, yn Gymdeithasol ac yn Amserol (EAST – Easy, Attractive, Social, Timely). Mae'r pedair egwyddor syml hon yn seiliedig ar waith y Behavioural Insights Team ei hun a llenyddiaeth academiaidd ehangach:<sup>116</sup>

- **Hawdd** – e.e. **symleiddio'r neges**. Mwy na thebyg mai dyma un o'r negeseuon mwyaf cyffredin ar gyfer cyfleu ymchwil i gynulleidfaoedd lleyg. Gallai hyn fod mor syml hyd yn oed â fformat y briff ysgrifenedig. Mae ymchwil dilyn symudiad llygaid a gynhaliwyd ar gyfer y Post Brenhinol yn 2010<sup>117</sup> yn awgrymu bod **pobl fel arfer yn canolbwyntio ar benawdau, blychau a delweddau, tra bod testun manwl yn aml yn cael ei anwybyddu**. Fodd bynnag, gellir gor-bwysleisio'r arfer o symleiddio negeseuon. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod cymhlethdod yn arwain at ganlyniadau dysgu mwy hir dymor, os ydych chi wir yn ceisio newid gwybodaeth a dealltwriaeth pobl.<sup>118</sup>
- **Deniadol** – e.e. **defnyddio delweddau neu bersonoli**. Mae hyn yn helpu i ddenu sylw (gweler y blwch ar y dudalen ganlynol ar defnyddio delweddau a sganiau MRI).
- **Cymdeithasol** – e.e. **defnyddio hanesion, a phobl go iawn**. Manteisiwch ar rwydweithiau er mwyn annog newid ymddygiad ehangach, ac annog pobl i wneud ymrwymiad i'w gilydd.
- **Amserol** – cawn ein dylanwadu'n fwy gan **gostau/manteision uniongyrchol** na rhai hwyrach (sy'n her i ymyriad cynnar) felly dylech ei gwneud yn gyfredol. Hefyd, dylech amseru'n iawn ac ysgogi pobl pan fyddan nhw fwyaf parod i dderbyn; gall gwneud yr un cynnig ar adegau gwahanol arwain at lefelau gwahanol iawn o lwyddiant.



## Pŵer delweddau – a sganiau'r ymennydd



Perry, B.D. (2002) Childhood experience and the expression of genetic potential: what childhood neglect tells us about nature and nurture. 'Brain and Mind'. 3: 79-100.

Bu'r ddelwedd hon yn ddylanwadol iawn ac fe'i rhoddwyd ar dudalen flaen adroddiad uchel ei barch gyda thystiolaeth dda i'w gefnogi ar gyfer y llywodraeth gan yr AS Graham Allen<sup>119</sup> a oedd yn dadlau'r achos dros ymyriad cynnar. Mae'r ymennydd ar yr ochr dde yn dangos effaith ar ymennydd plentyn sy'n dioddef o 'esgeulustod difrifol' a'r niwed am weddill ei fywyd, yn seiliedig o bosibl ar rianta gwael. Fodd bynnag, mae rhai wedi cwestiynu'r defnydd o ddelweddau MRI<sup>120</sup> o'r fath. Er enghraifft, beth oedd hanes achos y ddau blentyn uchod? Efallai bod gan y plentyn ar y dde anabledau difrifol eraill.

Ond gwyddom ba mor bwerys y gall niwro-ddelweddu fod wrth ddylanwadu ar lunwyr polisi – ac ar arbenigwyr eraill hyd yn oed. Canfu un hap-dreial wedi'i reoli fod cynnwys delweddau o ymennydd yn gysylltiedig â chanfyddiad uwch o deilyngdod gwyddonol. Dangoswyd papurau academiaidd, a oedd union yr un fath, i fyfyrwyr prifysgol, a'r unig wahaniaeth oedd bod un yn cynnwys delweddau o ymennydd, ac nid oedd delweddau o ymennydd ar y llall (ac roedd un yn cynnwys delweddau eraill, megis graffiau bar traddodiadol). Credai'r bobl fod i'r papur â delwedd o ymennydd lawer mwy o hygrededd gwyddonol, heb sylweddoli mai union yr un testun ac ymchwil oedd iddynt.<sup>121</sup>

### Negeseuon allweddol o Adran E

- Mae cyfathrebu'n llwyddiannus yn golygu **dangos empathi tuag at eich cynulleidfa darged** – yn ddelfrydol o ddechrau'r broses o gasglu tystiolaeth.
- Dylech osgoi lledaenu goddefol. Yn lle hynny, mae angen i chi **ymgysylltu'n weithredol â'ch cynulleidfaoedd**.
- Os oes yn rhaid i chi fod yn fwy goddefol wrth gyfathrebu, defnyddiwch awgrymiadau'r Behavioural Insights Team ar newid ymddygiad. Dylech ei **Gwneud hi'n Hawdd, yn Ddeniadol, yn Gymdeithasol ac yn Amserol**.

# Crynodeb

P'un a ydych chi'n lluniwr polisi neu'n arweinydd mewn elusen neu awdurdod lleol, mae'n annhebygol y bydd tystiolaeth yn 'cydweddu' yn dda â'r holl ffynonellau eraill o wybodaeth sydd ar gael. Rhan o'r gymysgedd yn unig yw tystiolaeth ymchwil, ac felly y dylai fod.

Mae sut i fynd ati i wneud penderfyniadau clyfrach yn gyffredinol yn ganllaw arfer newydd ynddo'i hun. Awgrymiadau a rhestrau gwirio yn unig y gellir eu rhoi yma. Ni fydd byth fformiwla hud ar sut i 'wneud' polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Fodd bynnag, mae modelau a theclynnau ar gael i helpu i wneud penderfyniadau. Ar gyfer llunwyr polisi, mae tîm **Evidence for Policy Design Prifysgol Harvard** wedi creu teclynnau ar-lein megis 'coed-penderfyniad' neu 'fatricks dadansoddi polisi' i helpu i bwysu a mesur y darnau cystadleuol o wybodaeth sydd y tu ôl i bolisi, yn sgil arian gan DFID y DU.<sup>122</sup> Mae'r teclynnau gwneud penderfyniadau hyn yn ddefnyddiol ond ni fyddan nhw byth yn disodli barn broffesiynol ym myd cymhleth a blêr polisi cymdeithasol. Gallant fod yn offeryn neu'n rhestr wirio i'w gefnogi. Yn hytrach na gwneud ein rhestr ein hunain, mae gennym ddau brif argymhelliad ar gyfer defnyddio tystiolaeth yn sail i wneud penderfyniadau gwell:

## 1. Rhoi newidiadau neu gyngor sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar waith sydd mor gryf â phosibl (ac i'r gwrthwyneb, bod yn wylidwrus o newidiadau neu gyngor os yw'r dystiolaeth yn wan)

Cyngor y canllaw yw po gryfaf yw'r dystiolaeth, yn enwedig os yw'n seiliedig ar fwy nag un efelychiad ac adolygiadau systematig yn hytrach nag un astudiaeth yn unig, y mwyaf hyderus y dylech chi fod o'i gynnwys yn rhan o'ch penderfyniad.

Yr hyn na ddylem ei wneud yw gwneud awgrymiadau polisi mwy beiddgar yn seiliedig ar dystiolaeth wannach. Efallai bod hynny'n ymddangos yn amlwg i chi, ond nid yw'n ymddangos bod hynny'n digwydd ym maes llunio polisi. Canfu adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar dystiolaeth llywodraeth (gweler tudalen 29) fod y gwerthusiadau gwannaf yn fwy tebygol o wneud honiadau beiddgar heb gafeat am effeithiau cadarnhaol y polisi a archwiliwyd.<sup>123</sup> Os oes tystiolaeth wan, neu nad oes tystiolaeth yn bodoli, byddwch yn onest am hynny gan ddweud hynny. Gêm beryglus yw honni gormod. Ac er y gwyddom mor rhwystredig yw gweld casgliad yn dweud bod 'angen mwy o ymchwil' mewn adroddiadau neu gyngor polisi, y mae hefyd yn wir: ni ddaw'r angen i ddeall ac ymchwilio byth i ben.

## 2. Byddwch yn ymwybodol o dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau

Yr ail ddarn o gyngor yw bod yn hunanymwybodol am dueddiadau gwybyddol posibl wrth i chi wneud penderfyniadau. Mae bod yn ymwybodol o'r ffaith y gallech fod yn neidio i'r casgliadau anghywir – hyd yn oed pan fyddwch chi wedi defnyddio'r ymchwil gorau posibl – yn hanfodol.

Yn olaf, dymunwn bwysleisio mai'r neges bwysicaf un yn y canllaw hwn yw priodolrwydd: 'llunio'r gwadn fel bo'r droed'. Mae angen ichi feddwl am y math cywir o ymchwil i gyd-fynd â'ch anghenion.

Mae'n rhaid iddo fod yn gymesur – byddai hap-dreial wedi'i reoli sy'n enfawr ac amlweddol, yn wallgof ar gyfer menter gymdeithasol fach yng nghefn gwlad. Ond yn yr un modd, dylai rhaglen gymdeithasol £50 miliwn sydd i bara am ddegawd wirioneddol fuddsoddi mewn tystiolaeth.

Mae'n rhaid i'r math o dystiolaeth hefyd gyd-fynd â'ch cwestiwn. A yw'n cydweddu â lle'r ydych o ran tyfu rhaglen, polisi neu arfer? I'ch helpu i lunio barn ar hynny, defnyddiwch rai o'r fframweithiau ffurfiol, fel Safonau Tystiolaeth Nesta, os yw eich cwestiwn yn ymwneud ag effaith. Hefyd, ystyriwch ble'r ydych yn nhroell Nesta – ai dysgu gan eraill fyddai eich dewis gorau, neu a yw'n bryd arbrofi'n ffurfiol â'ch syniad sy'n tyfu?

A pheidiwch â chael eich dychryn gan gost – rydym wedi rhoi rhai cyfeiriadau at ble i ddod o hyd i ymchwil sydd eisoes ar gael, a hynny am ddim. Mae'n dod yn haws cael gafael ar ymchwil. Mae academyddion dan fwy o bwysau i gamu y tu allan i waliau eu prifysgol a'ch helpu ym maes llunio polisi, gwaith elusennol neu gyflawni gwasanaethau lleol da.

Mae hefyd angen inni fod yn fwy clyfar o ran sut i gyfleu tystiolaeth. Prin iawn y bydd tystiolaeth yn siarad ar ei rhan ei hun. Neges gyfathrebu gyffredin yw symleiddio, darlunio, dangos empathi a bod yn 'gyfieithiadol' – hynny yw, rhyngweithio gyda'ch cynulleidfa. Yn y misoedd a'r blynyddoedd sydd i ddod, byddwn yn gwneud hynny'n union: creu fideos a chyfryngau digidol rhyngweithiol ar gyfer dysgu cyfunol, ac efallai, annwyl ddarllenwr, eich cyfarfod wyneb yn wyneb yn un o'n Dosbarthiadau Meistr Tystiolaeth parhaus.

# Atodiad 1

## Sail resymegol i dystiolaeth a mathau o dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer llunwyr polisi

Ffynhonnell: Louise Shaxson (2014) *Investing in Evidence; Lessons from the UK Department for Environment, Food and Rural Affairs*.

Pennawd	'Y cwestiynau mawr'	Sail resymegol i anghenion tystiolaeth	Mathau o dystiolaeth sy'n ofynnol
A: <b>Deall y cyd-destun;</b> prosesau a ffenomenau hanfodol, sylfeini a meincnodau	Ble rydyn ni nawr?	<ul style="list-style-type: none"> <li>Casglu a dadansoddi data sydd ar gael / data newydd</li> <li>Gwerthuso risgiau, materion ac ansicrwydd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygiadau o wybodaeth gyfredol</li> <li>Arolygon o ddata cymdeithasol ac amgylcheddol</li> <li>Ymchwil ar achosiaeth</li> <li>Asesiad risg</li> </ul>
B: <b>Datblygu</b> modelau, methodolegau ac offer	Ble rydyn ni'n mynd?	<ul style="list-style-type: none"> <li>Deall ysgogwyr a thuaddiadau cyfredol</li> <li>Rhagweld ysgogwyr a thuaddiadau'r dyfodol</li> <li>Asesu goblygiadau ar gyfer canlyniadau polisi</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dadansoddi sensitifrwydd</li> <li>Sganio'r gorwel</li> <li>Rhagweld sefyllfaoedd</li> <li>Modelu effeithiau a chanlyniadau</li> </ul>
C: <b>Datblygu a defnyddio'r</b> sylfaen dystiolaeth i helpu i <b>osod targedau a ffurfio polisi</b>	Lle rydyn ni eisiau bod dros y 5-10 mlynedd nesaf?	<ul style="list-style-type: none"> <li>Deall gwerth economaidd/ cymdeithasol newid</li> <li>Deall ymarferoldeb/cost newid</li> <li>Cyd-drafod nodau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymchwil economaidd a chymdeithasol</li> <li>Prosesau ymgysylltu ymgynghori</li> <li>Astudiaethau peilot ac ymarferoldeb</li> <li>Arolygon o'r farchnad</li> </ul>
D: <b>Datblygu a gwerthuso opsiynau/datrysiadau</b>  E: Penderfyniadau gorau posibl a gweithredu effeithiol drwy <b>gyfathrebu</b> , ymgysylltu ac ymgynghori i ddylanwadu ar newid	Sut fyddwn ni'n cyrraedd yno?	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nodi/gwerthuso opsiynau cyfredol</li> <li>Nodi/datblygu datrysiadau newydd</li> <li>Gwerthuso opsiynau newydd/ hen opsiynau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Astudiaethau opsiwn/ gwerthuso</li> <li>Asesiadau effaith rheoleiddiol</li> <li>Ymyriadau i hybu arloesedd</li> </ul>
F: <b>Monitro cynnydd</b> tuag at bolisi/targedau rhaglen  G: <b>Gwerthusiad</b> polisi/ rhaglen	Pa mor dda wnaethon ni?	<ul style="list-style-type: none"> <li>Monitro cynnydd</li> <li>Gwerthuso polisiau a rhaglenni</li> <li>Dysgu gwersi</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwerthusiadau rhyngddisgyblaethol</li> <li>Prosesau gwerthuso ymgynghori</li> </ul>

## Atodiad 2

# Dyluniadau arbrolol ar gyfer gwerthuso ymyriadau cymhleth

Daw'r rhestr hon o bum dyluniad arbrolol gwahanol o ddogfen *Developing and evaluating complex interventions: new guidance*, a baratowyd ar ran y Cyngor Ymchwil Feddygol (2013).

### 1. Hap-dreialon unigol

Caiff unigolion eu nodi ar hap naill ai i dderbyn ymyriad arbrolol, neu ddewis amgen megis triniaeth safonol, plasebo neu barhau ar restr aros. Caiff treialon o'r fath weithiau eu hystyried yn amherthnasol i ymyriadau cymhleth, ond mae nifer o amrywiadau ar y dull sylfaenol, ac yn aml gellir canfod datrysiadau i'r problemau technegol a moesegol sy'n gysylltiedig â dewis ar hap.

### 2. Hap-dreialon clwstwr

Yn aml, ystyrir bod achos o halogi'r grŵp rheoli, gan arwain at amcangyfrifon â thuedd o faint yr effaith, yn anfantais i hap-dreialon ymyriadau ar lefel poblogaeth, ond mae hap-dreialon clwstwr, a ddefnyddir yng ngwaith ymchwil y gwasanaeth iechyd, yn un ateb. Yma, mae grwpiau megis cleifion mewn meddygfa neu denantiaid mewn cynllun tai yn cael eu dewis ar hap i dderbyn yr ymyriad arbrolol neu'r ymyriad rheoli.

### 3. Dyluniadau lletem risiog

Gellir defnyddio dyluniad lletem risiog i oresgyn gwrthwynebiadau ymarferol neu foesegol i werthuso ymyriad yn arbrolol lle mae rhywfaint o dystiolaeth o effeithiolrwydd ar ei gyfer, neu lle nad yw'n bosibl i'r boblogaeth gyfan fanteisio arno ar unwaith. Mae'n caniatáu i hap-dreial wedi'i reoli gael ei gynnal heb achosi oedi o ran rhoi'r ymyriad ar waith yn gyffredinol. Yn y pen draw, mae'r boblogaeth gyfan yn derbyn yr ymyriad, ond gyda dewis ar hap yn rhan o roi'r ymyriad ar waith yn raddol.

### 4. Treialon hoff ddewis a dyluniadau hap-ganiatâd

Yn aml gellir goresgyn rhwystrau ymarferol neu foesegol i ddewis ar hap drwy ddefnyddio dyluniadau nad ydynt yn safonol. Lle mae gan gleifion hoff ddewis ymysg triniaethau, gallai fod yn briodol dyrannu triniaeth yn seiliedig ar hoff ddewis y cleifion, neu ddewis cleifion ar hap cyn cael caniatâd.

### 5. Dyluniadau N-o-1

Nod treialon confensiynol yw amcangyfrif effaith gyfartalog ymyriad ar boblogaeth, a rhoi ychydig wybodaeth am amrywiant person mewn ymateb i ymyriadau, neu am y mecanweithiau mae ymyriadau effeithiol yn eu defnyddio i gyflawni newid. Gellir defnyddio treialon N-o-1, lle mae unigolion yn derbyn ymyriadau gyda'r drefn neu'r amserlen wedi'i dewis ar hap, i asesu newid rhwng pobl a newid oddi mewn i bobl, ac ymchwilio i gyfryngwyr y newid hwnnw a ragwelwyd yn ddamcaniaethol.

# Atodiad 3

## Canllawiau ar ansawdd tystiolaeth, dyluniadau a dulliau

Social Researchers' Method Guides, Llywodraeth yr Alban – cyflwyniadau byr i rai o'r dulliau mwyaf cyffredin a ddefnyddir mewn ymchwil gwyddor gymdeithasol

[www.gov.scot/Topics/Research/About/Social-Research/Methods-Guides](http://www.gov.scot/Topics/Research/About/Social-Research/Methods-Guides)

The Bond Evidence Principles a'r rhestr wirio - wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer Sefydliadau Anllywodraethol

[www.bond.org.uk/effectiveness/monitoring-and-evaluation](http://www.bond.org.uk/effectiveness/monitoring-and-evaluation)

Evidence for Success: the guide to getting evidence and using it – canllaw ymarferol ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector gan Evaluation Support Scotland a KTN

[www.evaluationsupportscotland.org.uk/media/uploads/resources/ess-evidenceforsuccess-revised\\_april\\_2015-web.pdf](http://www.evaluationsupportscotland.org.uk/media/uploads/resources/ess-evidenceforsuccess-revised_april_2015-web.pdf)

Research Guide for Third Sector Organisations

[www.ncb.org.uk/media/858179/research\\_guide\\_for\\_third\\_sector\\_organisations.pdf](http://www.ncb.org.uk/media/858179/research_guide_for_third_sector_organisations.pdf)

Developing and evaluating complex interventions: new guidance, y Cyngor Ymchwil Feddygol – yn darparu canllawiau ar ddatblygu, gwerthuso a rhoi ymyriadau cymhleth ar waith i wella iechyd

[www.mrc.ac.uk/documents/pdf/complex-interventions-guidance/](http://www.mrc.ac.uk/documents/pdf/complex-interventions-guidance/)

Swyddfa'r Llywodraeth ar gyfer Gwyddoniaeth – Canllawiau Prif Ymgynghorydd Gwyddonol y Llywodraeth ar Ddefnyddio Cyngor Peirianeg a Gwyddonol wrth Lunio Polisi

[www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/293037/10-669-gcsa-guidelines-scientific-engineering-advice-policy-making.pdf](http://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/293037/10-669-gcsa-guidelines-scientific-engineering-advice-policy-making.pdf)

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) – The Guidelines Manual: Reviewing the Evidence

[www.nice.org.uk/article/pmg6/chapter/6-reviewing-the-evidence](http://www.nice.org.uk/article/pmg6/chapter/6-reviewing-the-evidence)

DFID – How to Note: Assessing the Strength of Evidence

[www.gov.uk/government/publications/how-to-note-assessing-the-strength-of-evidence](http://www.gov.uk/government/publications/how-to-note-assessing-the-strength-of-evidence)

Trysorlys Ei Mawrhydi – The Magenta Book: Guidance for Evaluation

[www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/220542/magenta\\_book\\_combined.pdf](http://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/220542/magenta_book_combined.pdf)

Civil Service Learning – Policy Profession: Skills and Knowledge Framework

[civilservicelearning.civilservice.gov.uk/sites/default/files/policy\\_profession\\_skills\\_and\\_knowledge\\_framework\\_jan2013web.pdf](http://civilservicelearning.civilservice.gov.uk/sites/default/files/policy_profession_skills_and_knowledge_framework_jan2013web.pdf)

